
PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 421 | Medi 2019











# Llwyddiannau lleol




Llun: Marian Delyth

Llongyfarchiadau i Dr Rhiannon Ifans, Penrhyn-coch – enillydd Medal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol 2019. Gweler adolygiad o Ingrid ar t. 19



Enillydd Gwobr Goffa Mark Horwood (tlws am chwaraewr gorau'r dydd): Sadwrn: Steffan Gillies (Penrhyn-coch)



Enillydd Gwobr Goffa Mark Horwood (tlws am chwaraewr gorau'r dydd): Sul: Mari Hefin (Bow Street)

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Maencrannog, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LU
☎ 07814659661
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Hydref** Deunydd i law: Hydref 4 Dyddiad cyhoeddi: Hydref 16

**MEDI 18** Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn Noson yng nghwmni y Fets (Llanbadarn) am 7.30 yn festri Horeb, Penrhyn-coch

**MEDI 21** Bore Sadwrn Coffi, cacen a chlonc - bore coffi MacMillan Nia & Nia yn Neuadd Rhydypennau o 10.00-12.00. Cysylltwch â Nia Gore 07968652822 neu Nia Peris 07814017991

**MEDI 21** Dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth yng Nghapel Siloam i ddechrau am 1.30 o'r gloch

**MEDI 26** Nos Iau Cynhelir lansiad o The Jeweller - sef cyfieithiad Saesneg o nofel Caryl Lewis Y Gemydd yn Waterstones Aberystwyth am 6.30yh. Cewch y cyfle i gwrdd â'r awdur a'i chyfieithydd, Gwen Davies ac i brynu'r llyfr am bris gostyngedig.

**MEDI 27-29** Nos Wener hyd nos Sul Gŵyl Mabsant Llanfihangel Genau'r-glyn. Penwythnos o ddigwyddiadau i godi arian i Eisteddfod Ceredigion 2020. Gweler t.

**MEDI 28** Dydd Sadwrn Arddangosfa 'BYD BYCHAN' DR CLIVE WILLIAMS a gwaith medal gelf Seren Jenkins gan gynnwys Te Prynhawn yn Neuadd Eglwys Penrhyn-coch rhwng 2.30- 4.00yp

**MEDI 28** Pnawn Sadwrn. Lawnsiad swyddogol ail lyfr i blant Sharon Marie Jones yn Waterstones Aberystwyth am 2.00. Croeso cynnes i bawb.

**HYDREF 1** Nos Fawrth Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felin-fach am 7.00

**HYDREF 1** Nos Fawrth Cyfarfod Pwyllgor Apêl Trefeurig Eisteddfod Genedlaethol 2020 yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 8.00

**HYDREF 2** Nos Fercher Oedfa ddiolchgarwch Horeb; pregethwr gwadd: Y Parchg Carwyn Siddall, Llanuwchllyn am 7.00.

**HYDREF 4** Nos Wener Cwrdd Diolchgarwch Dyffryn. Goginan dan ofal Dr Gwyn Jones, Penparcau am 7.00

**HYDREF 11** Nos Wener Aneirin Karadog yn Cicio'r Bar yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**HYDREF 11** Nos Wener Eisteddfod Hwyl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felin-fach am 7.00. Am fanylion cysylltwch â'r golygydd neu gweler tudalen Facebook y Tincer.

**HYDREF 16** Nos Fercher Cymdeithas y Penrhyn Noson yng nghwmni Dr Rhiannon Ifans yn festri Horeb am 7.30.

**HYDREF 19** Nos Sadwrn Cyngerdd gyda Chôr Godre'r Aran, Gwawr Edwards, Thomas Mathias a Chôr Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn Eglwys Llanbadarn am 7.30Trefnir gan Bwyllgor Apêl Aberystwyth Eisteddfod 2020

## BRO 360

Sumai bawb, a chroeso i golofn gyntaf Bro360 yn *Y Tincer*. Fy enw i di Daniel Johnson, a dwi'n gweithio ar brosiect newydd yn eich ardal chi o'r enw Bro360. Yn fyr, bwriad y prosiect yw datblygu llwyfan newydd ar-lein i chi allu creu a rhannu eich straeon lleol a phopeth sy'n bwysig i chi yn eich bro.

Ers dechrau gweithio gyda chriwiau lleol ry'n ni wedi bod yn casglu syniadau am be sy angen ar wasanaeth lleol gogledd Ceredigion, gweld pa fudiadau allai fanteisio ar y cyfle, a darganfod yr amrywiaeth o gyfryngau allech rannu eich straeon ar - o fideos a phodlediadau i oriel luniau, calendr digidol a mwy.

Rydw i'n ysgrifennu hwn y bore ar ôl pumed gweithdy'r prosiect. Neithiwr, ar ôl broses o lunio rhestr fer o enwau posib i'r wefan; trafod beth sydd ei angen mewn enw; casglu barn ar stepen drws a chrynhoi pleidleisiau trwy gyfryngau digidol; penderfynodd y criw lleol ar enw'r gwasanaeth – sef BroAber360!

Dros y misoedd nesa byddwch yn clywed mwy am y prosiect wrth i ni ddod â'r gwasanaeth yn FYW




mewn sawl ffordd. Cadwch lygad allan am y manylion, wrth i ni ddod â chyffro a photensial BroAber360 yn syth i'ch stepen drws!

Hwyl am y tro.
**Dan**

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma enillwyr Cyfeillion y Tincer fis Mehefin 2019:

**£25** (Rhif 191) Mair England, Pant-y-glyn, Llandre
**£15** (Rhif 55) Brian Davies, Rhos, Tre Taliesin.
**£10** (Rhif 41) Meinir Jones, Garn Isaf, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher, Mehefin 19.
Cysylltwch â'r Trefnydd, Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan, os am fod yn aelod.

## Cyfarfod Blynyddol y Tincer

Yng Nghyfarfod Blynyddol y Tincer gynhaliwyd dydd Llun 9 Medi yn festri Horeb ailetholwyd y swyddogion presennol ar wahan i'r swydd Ysgrifennydd. Dymuniad Anwen Pierce oedd ymddeol – a hynny ar ol cyfnod o ddwy flynedd ar hugain. Diolchwyd iddi am ei gwaith ar hyd y blynyddoedd a chyflwynwyd rhodd fach iddi yn gydnabyddiaeth am ei hymroddiad a'i diwydrwydd. Penodwyd Iona Davies, Capel Bangor yn ysgrifennydd a diolch iddi hi am gytuno i weithredu. Gwelir ei manylion ar dudalen 2.

Mae'r Tincer yn chwilio am berson i gynorthwyo y Trysorydd gyda hysbysebion – mae y drefn bresennol yn gweithio yn effeithiol ond byddai yn dda i'r papur gael rhai hysbysebwyr newydd gan feddwl am y dyfodol. Os oes rhywun a diddordeb cysylltwch â'r swyddogion am fwy o fanylion.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## 30 MLYNEDD YN OL



Eleni eto, cafwyd diwrnod braf i'r carnifal blynyddol. Daeth criw ynghyd i weld y coroni a'r gwisgoedd ffansi. Siomedig oedd yr ymateb i gystadlaethau'r oedolion ond roedd y plant yn greadigol iawn. Coronwyd Nia Williams, Trefeurig, gan frenhines 1988, Holly Meachen, Penrhyn-coch. Roedd ganddi bedair morwyn a dau was bach. Llywydd y dydd oedd Mrs Meinir Davies, Llanilar, cyn frenhines ac yn un o blant y Penrhyn. Cafwyd araith addas ganddi a chofiodd yn dda am yr achos. Llun: Hugh Jones ( O Dincer Medi 1989)
Er holi, methwyd darganfod enwau y ddwy forwyn sydd o boptu y rhes – rhowch wybod i'r golygydd os gwyddoch. Dyma enwau y gweddill: ?? Rhian Haf, Meinir Davies, Nia Williams (Brenhines 1989), Holly Meachan (Brenhines 1988) Zoe Morris ?? Blaen: Gareth Lathwood a Kristian Marshall.

**Cyfres i Radio Cymru yn nodi 70 mlynedd ers sefydlu y Gwasanaeth Cenedlaethol**

Rhwng 1949 a 1963 bu'n rhaid i fechgyn o Gymru rhwng 17 a 21 oed ymrestru yn y fyddin. Cafodd dros gan mil o ddynion o Gymru eu gorfodi i adael eu cartrefi a'u teuluoedd er mwyn gwisgo lifrai milwr.

Dyma'r 'National Service' - y Gwasanaeth Milwrol Cenedlaethol. Dyma'r genhedlaeth ddaeth i oed ar ôl yr Ail Ryfel Byd, yr "in-betweeners - yn rhy ifanc i ymladd yn yr Ail Ryfel Byd, yn rhy hen i fwynhau'r newidiadau cymdeithasol a ddaeth i bobl ifainc yn ystod y 1960au.

Mae Cwmni Silyn yn chwilio am gyfranwyr i sôn am eu profiadau yn ystod y cyfnod hwnnw ar gyfer cyfres newydd i Radio Cymru.

Buoch chi neu un o'ch perthnasau yn un o'r "milwyr bychain"? Os do, rydym yn awyddus i glywed am eich hanes ar gyfer ein cyfres newydd.

Disgwyl mlaen i siarad gyda chi!

Cysylltwch gyda Gaynor Jones ar 07775 847710 neu drwy ebost preseli31@gmail.com.

Pob hwyl a diolch
**Gaynor Jones**

**Rhoddion**

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Cyngor Cymuned Genau'r-glyn
**£200**
Cylch Cinio Aberystwyth
**£100**

# Y BORTH

**Marwolaeth**

Trist oedd clywed am farwolaeth William John Williams (Billy Tŷ-Du) fu farw yn Ysbyty Bron-glais dydd Mawrth Gorffennaf 30ain. Cynhaliwyd yr angladd dydd Mercher Awst 7fed.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Eurgain Rowlands a'r teulu (gynt o Hafod Heli) ar farwolaeth Nia – chwaer Eurgain – yng Nghaerdydd ar 30 Mehefin ac â Elin Hefin a'r teulu ar farwolaeth mam Elin ar 16 Gorffennaf.

**Cronfa Apêl y Borth**

Mae Cronfa Apêl y Borth ar gyfer Eisteddfod Ceredigion 2020 bellach wedi codi bron i £3,000 tuag at ei tharged o £5,000. Dros yr haf, fe gynhaliwyd dau ddigwyddiad pellach i godi arian at yr achos.

**Sioe Ffasiwn**

Fe drefnwyd sioe ffasiwn arbennig nos Sadwrn 6 Gorffennaf gan berchnogion dau o fusnesau'r pentre – Sadie Walker o siop nwyddau cartref No 2 London Place a Sarah Pugh o dafarn y Friendship.

Modelwyd ystod o ddillad gan bobl leol – yn eu plith 'Brat y Borth' gan Becky Knight, siwmperi gan Diane Logan, detholiad o ddillad babi gan Amanda Partridge, siolau a ponsios gan Gill Father o Rheidol Alpaca, ac amrywiaeth o nwyddau yn dylunio tai y Borth gan gwmni 'Antonius a Victoria'.

Daeth llu o bobl ynghyd i gefnogi'r noson a chodwyd cyfanswm o £789 tuag at yr apêl.



**Cyflwyno mainc**

Yr Athro Des Hayes a'i wraig Nansi yn eistedd gyda Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Ganghellor Prifysgol Cymru Aberystwyth ar fainc gyflwynodd y teulu Hayes i'r Brifysgol ddechrau Gorffennaf i ddathlu canmlwyddiant bridio planhigion yn Aberystwyth.

**Clwb Golff Y Borth ag Ynys-las**

Cynhaliwyd cystadleuaeth golff i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 yng Nghlwb Golff y Borth ac Ynys-las ar ddydd Sadwrn 20 Gorffennaf. At ei gilydd roedd 15 o dimau pedair pêl wed cystadlu ac fe godwyd £1,100 at yr achos. Prif noddwr y gystadleuaeth oedd Yr Arglwydd Elystan-Morgan gyda nawdd hefyd gan Libanus 1877, Charles Raw-Rees a Breda a Mike Roberts. Roedd yr enillwyr fel a ganlyn.

*Menywod*

1af – Kathy Price, Sue Wilson, Breda Roberts a Jane Raw-Rees

2il – Clare Jones, Helen Lewis, Alison Evans a Nia Hughes

3ydd – Mair Jenkins, Barbara Reece, Jean Harrison a Margaret Roberts

*Dynion*

1af - David Baxter, Martyn Gumber, Amanda Ranson a Nikki Gimber

2il - Dafydd Raw-Rees, Dylan Raw-Rees, Dafydd Brace Jones ac Alun Oliver

3ydd – Iori Jones, Alun Price Thomas, Emlyn Watkin ac Ian Jones






**Cywiriad**

Ymddiheuriadau – yn y deyrnged yn rhifyn Mehefin o'r *Tincer* ymddangosodd enw Gwenllian Ashley yn anghywir.

**Ailagor Swyddfa Bost**

Mae'n dda deall fod Swyddfa Bost y Borth nôl ar agro yn Erwau Glas, y Stryd Fawr.



Neil Johnston

**Golau-Light**

Mae rhaglen arddangosfeydd Celfyddydau'r Borth yn parhau gyda sioe newydd yn MOMA Machynlleth o Fedi 21ain hyd Dachwedd 16 eg.

Mae 'Golau-Light' yn arddangosfa gan artistiaid gweledol Celfyddydau'r Borth. Gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a thechnegau mae'r grŵp amrywiol yma yn cysylltu â ac yn cael ei ysbrydoli gan amgylchedd unigryw y Borth môr, traeth, mynydd, lliw a'r golau sydd yn gyson newid.

Mae yr artistiaid a'r lleoliad yn llythrennol ar yr ynyl, wedi eu dal rhwng y môr a'r mynyddoedd. Yn drist,ddiwedd Mai eleni, bu farw Gwenllian Ashley, curadur Celfyddydau'r Borth, ar ôl salwch byr. Mae'r sioe hon wedi ei chyflwyno er cof amdani. Roedd yn allweddol yng nghamau cyntaf trefnu yr arddangosfa a dewis ei theitl. Byddwn yn colli ei brwdfrydedd, arbenigrwydd a doethineb.

Mae ein diolch yn fawr i Jill Piercy,



Linda Henry

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau, 7 Mehefin yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Gyng. Meinir Lowry. Erbyn y daw'r adroddiad hwn i olau dydd yn y ***Tincer***, bydd y cyhoedd yn gwybod bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llwyddo i rwystro cynlluniau yr orsaf yn Bow Street am ryw hyd eto, hyn gyda'r esgus tila bod y mannau parcio yn debygol o gael eu boddi pe bai dilyw yn dod. Bydd gwybodaeth hefyd am ddyfarniad Pwyllgor Cynllunio Ceredigion ar gynlluniau prosiect arfaethedig yr orsaf.

Deallir hefyd bod cynllunwyr y prosiect a'u bryd ar gael y cyfan drwyddo heb hidio dim am gylchfan (roundabout) gerllaw y mynediad, a mwy na hynny bod eraill hefyd heb fod yn ysgwyddo y galw am gylchfan. O wrando ar drwch o'r boblogaeth leol, nid oes alw am orsaf, ond er diogelwch i bawb bod angen dybryd am gylchfan ger y mynediad i'r ffordd tuag at Gogerddan.

Trafodwyd y posibilrwydd o fedru estyn cymhorthdal ariannol i Ysgol Rhydypennau sydd fel llawer ysgol arall yn wynebu toriadau enbyd yn eu cyllideb. Teimlwyd mai calon y gymdogaeth yw'r ysgol a'i bod yn ddyletswydd arnom ei chefnogi i'r eitha. Gan fod gennym arian wrth gefn, a'r posibilrwydd o godi praesept Tirymynach blwyddyn nesaf i rywle tebyg i'r Cynghorau cyfagos, yna gellid cyflwyno £5,000 y flwyddyn dros y dair blynedd nesaf i gyllid Ysgol Rhydypennau.

Derbyniwyd gwybodaethau am a ganlyn: 1) bod y ffrwcs ger mynediad cae chwarae Bryncastell wedi ei glirio, 2) bod rhaid cael cytundeb ysgrifenedig cyn gosod yr hysbysfwrdd ar wal Siop Spar, 3) ar y pwnc o dalu costau cynghorwyr, bydd ffurflenni yn dod i law yn fuan, a bydd gofyn eu llenwi os nad ydym am dderbyn unrhyw dâl. Drwy wneud hynny, ni fyddwn yn gyflogedig i'r Cyngor Sir.

Yn ei absenoldeb, anfonodd y Cynghorydd Paul Hinge ychydig sylwadau. Bu'n cwrsio yr awdurdodau i dorri gordyfiant ymylon ffyrdd yn yr ardal, roedd hefyd yn gresynu bod adroddiad Cyngor Sir Ceredigion ar sefyllfa y llwybr o'r Dolau i Rydypennau wedi bod ar y silff am hir amser cyn cyrraedd y Cynulliad yng Nghaerdydd. Adroddodd bod yna fan wen yn yr ardal yn llundynnu tai gweigion, a bod angen hysbysu yr Heddlu os adnabyddir hi. Dywedodd bod swyddogion y Cyngor wedi bod wrth Ysgol Rhydypennau yn monitro y parcio yno ar adeg gollwng y plant o'r ysgol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 26 Medi, os na bydd galw am gyfarfod brys yn y cyfamser.



Molly Brown



Lynne Dickens

ffrind gydol oes a chydweithwraig i Gwenllian a gytunodd yn garedig i guradu'r sioe. Meddai Jill, 'Roedd Gwenllian yn ffrind gwych ac yn guradur talentog ac mae'n anrhydedd gennyf gael dewis y sioe yma er cof amdani' Pwrpas y grŵp yw cefnogi artistiaid sydd yn byw ac yn gweithio'n lleol,ddim yn unig drwy roi cyfle i arddangos eu gwaith, ond hefyd drwy greu cyfleoedd i rannu arbenigedd a dysgu sgiliau newydd. Credir fod y celfyddydau a diwylliant yn chwarae rhan bwysig mewn cyfoethogi a chefnogi y gymuned ehangach.

Yr artistiaid a gynhwysir yw: Bodge, Molly Brown, Peter Condron, Lynne Dickens, Stuart Evans, Linda Henry, Neil Johnson, Peter Jones, Becky Knight, Mike Mann, Martine Ormerod, Ruth Packham, Marie Pierre, Sarah Pugh, Eve Smith a Jenny Williamson. Am fwy o fanylion cysyllter â bortharts@gmail.com

**Swyddog Gweinyddol Ecodyfi**

ecodyfi

I gefnogi Rheolwr, cyfathrebu a gweithgareddau ecodyfi.

Person trefnus, dwyieithog.
Rhan amser. £9-10 yr awr.
Contract blwyddyn yn y lle cyntaf.
**www.ecodyfi.cymru**

cefnogi economi a chymuned werddach

Dyddiad cau: 9/10/2019
Gwybodaeth a ffurflenni: info@ecodyfi.cymru
Y Plas, Machynlleth, SY20 8ER 01654 703965

**Annwyl Olygydd,**

Carwn dynnu sylw eich darllenwyr at gynhadledd flynyddol **Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru** sydd i'w chynnal eleni yn Archifau Morgannwg, Caerdydd, ar 5 Hydref 2019.

Agorir y gynhadledd gan ein Llywydd Anrhydeddus, Yr Athro Gwynedd Pierce. Y siaradwyr a'u testunau fydd Richard Morgan: 'Glamorgan place-names, old and new'; Sioned Davies 'Enwau lleoedd yn y Mabinogi'; Rhian Parry ac Ifor D. Williams: 'Cam Ymlaen'; a Heather James a David Thorne: 'Mensura Med Diminih: boundary place-names of a 9th century estate, Llandybïe, Carmarthenshire'. Cynhelir sesiwn hefyd ar 'Gaerdydd Ddwyieithog' gyda Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd.

Gellir lawrlwytho'r rhaglen a'r ffurflen gofrestru ar ein gwefan: www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru/cynadleddau/

Cost y gynhadledd yw £25 (£20 i aelodau) yn cynnwys cinio, ond rhaid cofrestru erbyn 26 Medi.

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i Gaerdydd!

Yn gywir,
**Angharad Fychan**,
Ysgrifennydd CELlC

# LLANDRE

**Priodasau aur**
Llongyfarchiadau i Avril a Colin Thomas ar ddathlu eu Priodas Aur ar Orffenaf 26

Hefyd i Sue a Gareth Davies, Aberceiro ar eu dathliad aur hwythau yr un mis.

**Croeso adref**
Croeso adref i Gwenda James, Taigwynion ar ôl cael triniaeth yn Ysbyty Gobowen.
i Wynne Melville Jones a fuodd yn Ysbyty Bron-glais, ac i Marian Jenkins a fuodd yn Ysbyty Bron-glais. Dymunwn lwyr wellhad iddynt

**Pen blwydd arbennig**
Dymuniadau gorau i Beryl Hughes,(Pantyperan gynt) ddathlodd ben blwydd arbennig ddechrau fis Gorffennaf.

**Priodas Berl**
Llongyfarchiadau i Penri a Llio James, Gwyniarth ar ddathlu eu priodas berl yn ddiweddar.

**Merched y Wawr Llandre**
Cyfarfu Merched y Wawr Llandre nos Lun Medi 16 ar gyfer eu noson agoriadol.

**Pwyllgor Apêl Llandre a Dôl-y-Bont Eisteddfod Ceredigion 2020**
Bydd penwythnos o ddigwyddiadau amrywiol yn cael ei gynnal yn Llandre er mwyn codi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.
Yn ystod y tri diwrnod, 27–29 Medi, mae croeso i bawb ymuno â ni yn hwyl Gŵyl Mabsant o gwmpas y pentre.

Nos Wener, 27 Medi, am 7.30 yr hwyr yn Nhafarn Rhydypennau bydd Stomp, gyda'r Stompfeistr Arwel 'Pod' Roberts yn cadw trefn ar feirdd yr ardal. Bydd cyfle i bawb ddod at ei gilydd am 6.30 i fwynhau cyrri a pheint am £6 yn unig cyn i'r cystadlu brwd ddechrau. Noson hwyliog, a digon o chwerthin!
Brynhawn Sadwrn, 28 Medi, bydd taith gerdded yn dechrau o barc chwarae Llandre am 2 o'r gloch, pan fydd Penri James yn mynd â ni am dro hamddenol. Bydd cyfle i'r plant (a'r oedolion!) ddilyn helfa natur, ac ennill gwobrau am gasglu pethau penodol ar y daith. Bydd lluniaeth ysgafn ac adloniant gan y Gerddorfa Iwcadwlis i ddilyn, yn Nhafarn Rhydypennau.




**Llwyddiant i grŵp canu Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont yn y Siôe yn Llanelwedd**
Beca a Cadi Williams (Rhydyfelin) ac Elain a Llio Tanat (Fferm Glanfrêd Llandre) yn ennill y gystadleuaeth grŵp canu.

Nos Sul, 29 Medi, am 6 o'r gloch, bydd dathliadau Gŵyl Mabsant yn dod i ben yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn gyda chyngerdd arbennig. Bydd doniau cerddorol unigolion lleol, Côr ABC a Chôr Ger y Lli yn ein diddanu, gyda phobl ifanc y pentre yn cyflwyno'r eitemau.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Gwenda James (822065) neu Meinir Wyn Edwards (820467), ac edrychwch am y posteri, y tocynnau a'r taflenni a fydd yn cael eu dosbarthu cyn bo hir.

Ymunwch â ni yn ystod penwythnos Gŵyl Mabsant a chodi arian at achos da ar yr un pryd!

**Pen blwydd hapus**
Llongyfarchiadau i Christine Millichamp ar gyrraedd 60 oed yn mis Medi

**Croeso**
Hoffwn groesawu Malcolm, Tanwen a'r bechgyn i Maesyrhedydd, Lôn Glanfred.



STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogi
Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk
Mid Wales Removals
Ffôn: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

Trefnwyr Angladdau
C T Evans
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
01970 820013
gwyn@ct-evans.co.uk
Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS




**Priodas**
Llongyfarchiadau calonnog i Osian Penri ac Erwain Alaw ar eu priodas ar y 3ydd o Awst. Mae Osian yn fab i Llio a Penri James, Gwyniarth, Taigwynion ac Erwain yn ferch i Eilir ac Aled Jones, fferm Hendy, Caernarfon. Dymuniadau gorau i'r ddau sydd wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd lle mae Erwain yn athrawes ac Osian yn Llawfeddyg.

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Oedfaon Capel Pen-llwyn**

*Medi*

22 10.00 Adrian Williams
29 5.00 Bugail

*Hydref*

6 10.00 Oedfa deuluol (diolchgarwch) ym Mhen-llwyn
13 5.00 Bugail Cymun
20 5.00 Roger Ellis Humphreys
27 10.00 Wyn Morris

**Sioe Pen-llwyn**

Cafwyd Sioe lwyddiannus eleni eto gyda'r tywydd yn eithriadol o braf. Bu yna gystadlu brwd yn y babell ac ar y cae. Ein Llywyddion eleni oedd John ac Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, a bu y ddau yn brysur iawn drwy'r dydd yn cyflawni nifer o ddyletswyddau. Diolch o galon iddynt am eu cefnogaeth ac am eu rhodd ariannol I goffrau y Sioe. Mae yna dipyn o waith yn mynd I mewn i drefnu y Sioe o flwyddyn i flwyddyn a diolch i aelodau y pwyllgor am eu presenoldeb yn y pwyllgorau bob mis. Diolch i'r holl stiwardiaid am eu gwaith hebddynt ni fyddai y diwrnod yn gymaint o lwyddiant.

Mae ein diolch pennaf i deulu Cwmwythig am adael i'r sioe gael ei chynnal ar y cae bendigedig ac am eu cefnogaeth bob amser. Mae cefnogaeth y teulu yn gyfan yn hwyluso dipyn ar waith y swyddogion. Edrychwn ymlaen yn awr i'r hanner canfed sioe yn y flwyddyn 2020

**Merched y Wawr Melindwr**

Cyhoeddwyd rhaglen y flwyddyn gan egluro rhai manylion ac edrychwn ymlaen at y gweithgareddau yn fawr. I gychwyn, Aled Evans oedd ein gŵr gwadd. Brodor o Drisant ac yn gyn brifathroYsgol Gymuned Mynach. Gorffennodd ei yrfa yng ngwasanaeth addysg Sir Ceredigion yn cynghori rhiaint a'u plant oedd mewn amgylchiadau anodd.

Roedd yn amlwyg bod Aled wedi paratoi araith dda a'i fod yn hollol drefnus gyda'i daflunydd a'i gyfrifiadur.

"Crafu'r Sosban" oedd y testun ac fe aethom ni ar daith i ucheldir Trisant; i Nant gwyn -cartref ei dad ac i Rydypererinion neu Rhydpiniwn, cartref ei fam.

Soniwyd am ei [x 4 ] hen-dad-cu a'i hen fam-gu. John a Mary Evans, Penllyn, yn byw ar y bryniau yn agos at Gwaith Fron-goch. Cafwyd 16 o blant a symudwyd i Letysynod yn1809. Trist oedd gweld llun cyflwr y ffermdy, yn adfeillion erbyn hyn.

Yna daethpwyd o dan ddylanwad Dafydd Morgan (y diwygiwr) )'o Felin Bont-goch, Pont ar Fynach. Roedd yn ffermwr, Saer coed, melinydd, gôf a theiliwr cyn cael gofal eglwys Ysbyty Ystwyth a Swyddffynnon ym 1868.



**Gareth Jenkins – mab Alun a Mary Jenkins, gynt o Gapel Bangor – erbyn hyn o Bow Street – yn croesawu aelodau o dim rygbi Cymru i Japan yn y derbyniad swyddogol i'r tim. Mae Gareth yn gweithio fel cyfieithydd (Saesneg - Japaneeg) mewn ysbyty ac wedi bod yn Japan ers graddio yn 2001. Bydd ei fam ac un o'r frodyr yn ymweld â fo y mis nesaf.**

Cyn diwedd ei arddangosfa cafwyd cipolwg o'i waith fel athro ac ychydyg o hiwmor y dosbarth. Syfrdanais wrth ddeall bod ei swydd 40 mlynedd yn ôl yn ysgol Comins-coch ac yn athro i'm mhlant, a mwy na hyn ei fod wedi fy adnabod fel rhiant!

Rhoddwyd y diochiadau gan Beti Daniel ein trysorydd a mwynhawyd paned a danteithion arbennig wedi eu paratoi gan ein swyddogion.

Byddwn yn cwrdd am 6-15 y h ar nos 1 Hydref o flaen Neuadd y pentre cyn teithio mewn cerbydau i Lynbedw, Llangwyryfon i Weithdy Betsan Jane.

**Y Parchg Griffith Jones**

Trist oedd derbyn y newyddion am farwolaeth y Parchg Griffith Jones ar 8 Mehefin. Bu'n weinidog ar nifer o eglwysi'r ardal yn ystod y chwedegau a'r saithdegau, cyn symud o'r ardal i barhau ei weinidogaeth yn rhannau deheuol y sir. Ym 1968, gadawodd eglwysi Nasareth, Rehoboth a'r Graig, a dod yn weinidog i gapeli Pen-llwyn, Dyffryn, Aberffrwd, Seion a Phisgah. Wedi dros ddegawd fel gweinidog ar yr eglwysi hyn, ymadawodd ag Eryl, Capel Bangor, a symud i Aberaeron, lle bu'n gweinidogaethu yn eglwysi'r Tabernacl, Aberaeron; Bethel, Aber-arth; Tan-y-bryn, Ffos-y-ffin a Llanarth. Roedd Mr Jones yn ŵr addfwyn, hynaws a boneddigaidd a roddai bwyslais ar bregethu'r Gair, ac roedd yn un a fyddai'n paratoi ei bregethau'n ofalus, gan eu traddodi gyda didwylledd a diffuantrwydd. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i weddw, Mrs Margaret Jones, a chyda Dilwyn ac Arwyn a'u teuluoedd.

**Pen blwydd arbennig**

Dymuniadau gorau i Hywel Jones, Awel Deg a ddathlodd ben blwydd arbennig ychydig fisoedd yn ôl. Treuliodd beth amser yn yr ysbyty ar yr adeg honno; dymunwn wellhad buan a chofion ardal gyfan ato. Bu gwylio ei wyrion o Gaerdydd yn disgleirio yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni eto yn gysur mawr i'r teulu cyfan.

**Symud Ardal**

Daeth y newydd trist yr wythnos hon y byddwn yn colli cwmni Alyson a Chris, Brynteg, gan eu bod ar fin symud i fyw i Gaerfaddon. Bu Alyson wrthi yn ddygn iawn ar ôl symud i'r ardal yn dysgu Cymraeg ac roedd yn bleser ei chlywed yn siarad iaith y Nefoedd. Bu yn aelod ffyddlon o Ferched y Wawr Melindwr yn ogystal â Changen Mynach. Roedd yn perthyn i Gôr CYD yn Aberystwyth ac wrth ei bodd yn ymwneud ac unrhyw weithgaredd ynglŷn â'r Gymraeg. Bu Chris yn aelod ffyddlon o Eglwys y Santes Fair yn Aberystwyth, a gwelir ei golli yntau yno yn fawr. Dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd; maent yn symud yn nes at eu teulu ac yn edrych ymlaen at hynny. Diolch am eu cwmnïaeth y blynyddoedd diwethaf yma.

**Gwreiddiau**

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at ail gydio yn y Grŵp Gwreiddiau a gynhelir yn Festri'r Garn bob bore Iau o 10.15 – 11.30. Os yn gyfleus, ymunwch â ni, ni fyddwch ar eich colled. Mae yn bleser dysgu mwy wrth draed Dr. Watcyn James, a chael paned a chlonc yn ogystal a chyfle i ddweud ein dweud, trowch i mewn, croeso!

**Priodasau**

Mae dau deulu o'r ardal, sef teulu Glasfryn a theulu Glennydd wedi cael y pleser dros yr haf o weld eu hwyrion yn priodi, Huw ac Elin yn Llannerchaeron ond bellach yn byw yn Ffos-y-ffin, Aberaeron ac Angharad a Huw yn Llanymddyfri ac yn ymgartrefu yng Nghaerdydd. Dymunwn y gorau i'r ddau bâr ifanc wrth iddynt ddechrau ar eu bywyd priodasol ac i'r ddwy Fam-gu heb anghofio Tad-cu hefyd gyda'u hatgofion melys hwythau o'r diwrnod.

# CLARACH

**Marwolaeth**

Dai Hydes 1939-2019

Bu farw Dai Hydes ganol mis Gorffennaf. Yn frodor o Dal-y-bont roedd yn arbenigwr ar hadau a chlywyd ef yn ddiweddar efo Dai Tomos ar Radio Cymru yn sôn am ddyddiau cynnar y Fridfa yng Ngogerddan – lle bu yn gweithio am flynyddoedd - bu yn gynghorydd am gyfnod ar Gyngor Plwyf Llangorwen. Cydymdeimlwn â'i weddw Paula a'i blant Ollie, (sydd yn ddarlledwr ar Radio Wales), Chris a Charlotte.

# Twrnament Pêl-Droed Bow Street 2019

Unwaith yn rhagor eleni, bu'r twrnament ieuenctid dan ofal Clwb Pêl-droed Bow Street yn llwyddiant ysgubol. Daeth tyrfa fawr ynghyd am ddau ddiwrnod ganol Gorffennaf, gyda nifer fawr yn chwarae mewn gwahanol gemau. Daeth timau o bob cwr o Gymru, gan gynnwys Pwllheli, Caerdydd a Chaernarfon. Cafwyd cystadlaethau i'r merched ar y dydd Sul.

"Roedd yn benwythnos arbennig," meddai Wyn Lewis, cadeirydd y clwb, "ac roedd y tywydd o'n plaid. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb gyfrannodd at lwyddiant y twrnament, yn gefnogwyr a chwaraewyr. Ry'n ni'n amcangyfrif fod dros 1700 ar y cae ddydd Sadwrn. Dwi hefyd am ddiolch i'n noddwyr, Brian Jones a Bwydydd Castell Howell am eu cefnogaeth." Ategwyd geiriau Wyn gan Amlyn Ifans, y trefnydd: "Mae'n bleser gweld y mwynhad ar wyneb y chwaraewyr a'r cefnogwyr. Mae cynnal y digwyddiad yn dasg enfawr o ran y gwaith trefnu, ac aeth y cyfan yn hwylus iawn. Mae'r cyfleoedd y mae'r twrnament yn eu rhoi i'r ieuenctid yn amhrisiadwy – diolch i bawb fu'n helpu mewn unrhyw ffordd."




**O dan 11** Yn ail: Penrhyn-coch




**O dan 16** Bow Street




**O dan 12** Enillwyr : Llanilar




**O dan 14** Enillwyr: Padarn United



**O dan 8** Enillwyr: Bro Hedd Wyn




**Merched o dan 12** Enillwyr Penrhyn-coch




**O dan 10** Enillwyr: Bow Street

# Canlyniadau

**O dan 6**
Enillwyr: Penrhyn-coch
Yn ail: Llambed

**O dan 8**
Enillwyr: Bro Hedd Wyn; Yn ail: Llambed

**O dan 10**
Enillwyr: Bow Street; Yn ail: Aberriw

**O dan 11**
Enillwyr: Llanfair-ym-Muallt
Yn ail: Penrhyn-coch

**O dan 12**
Enillwyr : Llanilar
Yn ail: Canton Rangers (Caerdydd)

**O dan 14**
Enillwyr: Padarn United
Yn ail: Penrhyn-coch

**O dan 16**
Enillwyr: Bow Street
Yn ail: Rhaeadr

**Merched o dan 12**
Enillwyr : Penrhyn-coch
Yn ail: Porthmadog
Chwaraewr y Dydd – merched: Keisha Swai (Porthmadog)

Gwobr Goffa Mark Horwood (tlws am chwaraewr gorau'r dydd):
Sadwrn: Steffan Gillies (Penrhyn-coch)
Sul: Mari Hefin (Bow Street)

Chwaraewr gorau'r dydd – enillydd cyffredinol:
Sadwrn: Robin Williams (Bro Hedd Wyn)
Sul: Cayo Carruthers (Llanilar)


Cayo Carruthers


Keisha Swai


Robin Williams

## DOLAU

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Heledd Ann Clarke, gynt o Minafon, sydd wedi colli ei gŵr, Brian, yn ddiweddar.

# Treialon Cŵn Defaid Trefeurig

Cynhaliwyd y treialon ar Orffennaf 27 ar Fanc-y-darren, Y beirniad oedd Ieuan Jones, Penbwlch, Llanfarian. Dyma'r canlyniadau:

**Dull Cenedlaethol Agored**
1. J. Evans - Scott
2. Teifion Morgan - Tess
3. I. Evans - Bob
4. J. Evans - Rick
5. E. Lloyd - Sal
6. Llion Harris - Jock

**Dull Cenedlaethol Nofis**
1. Llion Harris - Jock
2. Logan Williams - Bet
3. H. Lloyd - Fly

**Dull De Cymru**
1. Teifion Morgan - Tess
2. D. I. Morgan - Scott
3. E. L. Morgan - Nel
4. J. Evans - Rick
5. E. L. Morgan - Spot


**Maddy Lewis, Fferm Cwmerfyn**


## Cyfleoedd Gwirfoddoli

Cwmni Theatr Arad Goch

Mae Cwmni Theatr Arad Goch yn chwilio am wirfoddolwyr frwdfrydig ac egniol sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg.

Mae ystod eang o gyfleoedd ar gael gyda'r cwmni yn hir dymor neu ar gyfer prosiectau tymor byr. Mae Cwmni Theatr Arad Goch yn cynnig Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) am ddim, tocynnau i gynyrchiadau Arad Goch, tystysgrifau am wirfoddoli, cyfleoedd i gwrdd â artistiaid ac actorion, parti Nadolig a digonedd o de a choffi.
Os ydych chi am wneud gwahaniaeth, cwrdd â phobl newydd, adeiladu eich hyder, angen profiad ar gyfer eich CV, dysgu sgiliau newydd neu os oes gennych sgiliau trosglwyddadwy, gwirfoddolwch gyda ni!
Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli gyda Arad Goch neu am fwy o wybodaeth cysylltwch â post@aradgoch.org neu ffoniwch 01970 617998.


Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

- **yn bont** - rhwng yr eglwys a'r gymdeithas
  **yn fan cyfarfod** - i greu, i berfformio, i wrando, i ddysgu, i rannu
- **yn lle agored** - i bobl o bob oed a chefndir a chred; cartref i'r gymuned

**morlan.cymru**
**01970 617996**
**morlan.aber@gmail.com**
**Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH 01970-617996**

# PENRHYN-COCH

**Suliau Horeb**
**Medi**
22 10.30 Clwb Sul ar y cyd yn Eglwys St Ioan
22 10.30 Beti Griffiths 3.30 Horeb yn cynnal gwasanaeth yn Nhregerddan
29 10.00 Y Parchg Peter Thomas ym Methel, Aberystwyth

**Hydref**
6 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
13 10.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa deuluol
20 10.00 a 6.00 Cyfarfodydd pregethu Rob Nichols
20 10.30 Clwb Sul
27 10.30 Clwb Sul ar y cyd yn Horeb
27 2.30 Y Parchg Peter Thomas – ym Methel, Aberystwyth

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**
Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 25 Medi, 9 a 23 Hydref. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Gweneira Marshall, Brogerddan, a'r teulu ar farwolaeth ei chwaer – Tegwen Jones (gynt o Dal-y-bont) yn Hafan y Waun, Waunfawr ar 16 Mehefin. Cynhaliwyd yr angladd dydd Llun 24 Mehefin ac ar farwoaleth ei gŵr Brian Marshall ar Fedi 5ed. Mae ein cydymdeimlad hefyd gydag Yvonne ar golli ei thad..Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys St ioan dydd Sadwrn 14 Medi.

â Non Evans a'r teulu, 'Refail Fach, ar farwolaeth ei brawd – Paul - ganol fis Gorffennaf.

â Connie Evans, Neil a'r teulu Maes Seilo ar farwolaeth Tina Slack yn sydyn ar 18 Gorffennaf. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Llanbadarn ar Orffennaf 25

ag Alun Hughes, Ger-y-llan, (gynt o Isfryn, Cwmerfin) ar farwolaeth ei wraig Linda ar 6 Awst. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Aberystwyth ar 19 Awst..

ac â Ceinwen ac Aeron – Hafan gynt – a'r teulu ar farwolaeth Eirlys Evans, Comins-coch, gweddw Llew Evans.

Mae ein cydymdeimladau dwysaf hefyd efo Paul a PatMorgan, Cwrt, ar farwolaeth eu merch Anna Evans, Aberystwyth - aelod o staff y Comisiwn Brenhinol, fu farw ar 28 Awst mewn ysbyty yn Stoke on Trent yn dilyn digwyddiad ar safle gwersylla ym Methel, ger Caernarfon yr wythnos cynt. Cydymdeimlwn hefyd â theulu Anna – ei gŵr Huw a'r plant Lowri a Llew..



**Graddio**
Llongyfarchiadau i Anwen Morris, Preseli, am dderbyn gradd BSc mewn Seicoleg o Brifysgol Hope, Lerpwl. Pob hwyl iddi wrth gychwyn cwrs Meistr mewn Seicoleg Fforensig ym Mhrifysgol Nottingham Trent.

**Ymddeoliad hapus**
Ymddeoliad hapus i Bethan Davies - ar ôl 36 blynedd o wasanaeth – gan gynnwys 19 yn Ysgol Comins-coch ymddeolodd fel pennaeth Comins ganol Gorffennaf.

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Wil Galbraith ar raddio yn B Sc mewn daeareg ym Mhrifysgol Caerlŷr (Leicester) fis Gorffennaf. Dymuniadau gorau ar y cwrs yn Portsmouth.

**Ennill gwobr**
Llongyfarchiadau i Melissa Holmes am ennill Hyfforddwr Cymunedol Canolbarth Cymru Cymdeithas Pêl-droed Cymru

**Pen blwydd arbennig**
Dymuniadau gorau i Megan Davies, Pantdrain ddathlodd ben blwydd arbennig yn ystod yr haf.

**Eisteddfod Penrhyn-coch 2020**
Cyhoeddwyd y bydd Eisteddfod 2020 ar 24 a 25 Ebrill 2020.

**Rhedwyr o fri**
Llongyfarchiadau i Jane Thorogood enillodd fedal efydd dydd Sadwrn Awst 10fed yn y grŵp oedran 50-54 yn y gystadleuaeth clwydi 300 metr ym Mhencampwriaethau Trac a Maes Prydeinig ym Mirmingham. Hefyd i Ollie Thorogood enillodd ras 10k y Borth ar Awst 4ydd.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Ruth a Gareth Morgan, Ger-y-llan, ar enedigaeth mab – Macs Benjamin Morgan – ar 12 Awst; ŵyr i Janice a Kevin Evans, Maesyfelin a gor-ŵyr i Egryn Evans, Glan Ceulan.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau ar eu canlyniadau lefel A i Siôn Wyn, Dôl Helyg, - pob hwyl iddo ar ei gwrs perfformio ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, campws Caerdydd ac i Sioned Exley, Ger-y-llan; dymuniadau gorau yn ei swydd ym Meddygfa Padarn. Hefyd i Elisa Martin yn ei harholiadau TGAU.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Rachel a Matthew Thomas, Glanceulan, ar enedigaeth mab -Gruffydd - ar 14 Mehefin; brawd bach i Eve.

**Croeso**
Croeso nôl i Benrhyn-coch i Sara James, Caio ac Ywain. Dymuniadau gorau i Sara ar ei swydd yn Ysgol Penweddig ac i Caio fel disgybl yn Ysgol Penrhyn-coch. Mae Ywain




Dau o Benrhyn-coch fu'n perfformio yn Oliver dros yr haf.
Siôn James (chwith) ac Iwan Finnigan

yn y Cylch Meithrin ac yn ysu cael dechrau yn yr ysgol yn Ionawr!

**Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch**

'Rydym yn falch i gyhoeddi ein seithfed Gŵyl Coeden Nadolig yn Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch a hoffwn estyn wahoddiad i chi ymuno yn y fenter gymunedol. Mae'r thema eleni yn agored ar gyfer eich dehongliad eich hun, mi fydd yr ŵyl yn cychwyn ar ddydd **Sadwrn 14eg o Ragfyr - Sadwrn 4ydd Ionawr**.

**Cyfrol arall**

Cyhoeddwyd cyfrol arall gan yr awdur Niall Griffiths – ymddangosodd *Broken ghost* (Cape) yn ystod mis Awst. £16.99 neu kindle £9.99

**Lle poethaf erioed yng Nghymru!**

Dydd Sadwrn 24 Awst torrodd Swyddfa Dywydd Gogerddan y record am yr ŵyl banc Awst boethaf erioed yng Nghymru. Yn ôl y Swyddfa Dywydd cododd y tymheredd i 27.4 gradd selsiws. Cyn hynny 27.3 oedd y record flaenorol ym mhentref Felindre ger Trefyclo, Powys yn 2013.

**PATRASA**

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddigwyddiadau codi arian PATRASA; dyma grynhoi yr hyn rydym ni wedi'i godi yn ystod y 12 mis diwethaf: Gŵyl gwrw £ 482.68; Marchnad Nadolig (stondin raffl) £ 62.02; Noson Caws a Gwin £ 112.50; Marchnad Sul y Mamau £ 560.97; Parti yn y Parc £ 1605.60.

Diolch i bawb sy'n mynychu ein digwyddiadau codi arian, yn prynu tocynnau raffl, neu'n cyfrannu eu hamser a'u hegni i wneud i'r digwyddiadau hyn ddigwydd. Diolch yn fawr hefyd i bawb yn y garej am fod mor barod i helpu gyda'r diodydd ar gyfer ein digwyddiadau. Mae gennym ffordd bell i fynd eto i gyrraedd ein targed ar gyfer ein hoffer newydd, ond, gyda'ch help chi, fe gyrhaeddwn ni yno! Cadwch eich dyddiadur glir ar y 23ain o Dachwedd ar gyfer noson codi arian wych arall - Noson Cwrw a Gin, gyda Backtrax yn perfformio! Welwn ni chi yno!



**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Alice Gwynne-Jones a Jack Rendell, Rhos yr Hafod, Cae Mawr, ar eu priodas ar 28 Mehefin ym Maesmawr, Caersŵs. Treuliwyd y mis mêl ger Llyn Bled yn Slofenia. Er nad oes gwirionedd yn y si bod rhieni Alice, Ceris a Jamie, am newid y cloeon yn Rhos yr Hafod (!), mae Alice a Jack nawr yn chwilio am dy i'w hunain yn lleol i ymgartrefu ynddo, gan fod y ddau yn gweithio fel gweinyddwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**Eglwys St Ioan**

Cyhoeddodd pwyllgor codi arian Eglwys St Ioan eu seithfed Gŵyl Coeden Nadolig yn Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch. Mae'r thema eleni yn agored ar gyfer eich dehongliad eich hun, mi fydd yr ŵyl yn cychwyn ar ddydd Sadwrn 14eg o Ragfyr - Sadwrn 4ydd Ionawr.



Enillydd Cystadleuaeth Sioe Penrhyn-coch - Llongyfarchiadau i Anthony Moyes, Cae Mawr enillydd y gystadleuaeth ffotograff y Tincer yn Sioe Penrhyn-coch eleni Golygfa i'r de orllewin o Benrhiw 11 Rhagfyr 2017



**Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch**

Ar ddiwrnod Sant Bartholomeus, trist oedd derbyn y newyddion am farwolaeth y Parchedig Meurig Hywel John, Llan-y-bri. Hunodd yn dawel dydd Sadwrn 10fed Awst, 2019, yn 73 mlwydd oed, yng Nghartref Maes Llewelyn, Castellnewydd Emlyn. Mab annwyl y diweddar John a Letty, gynt o Lanelli.

Bu Meurig John yn gwasanaethu ym Mhenrhyn-coch ag Elerch o'r 28ain Mehefin 1974 hyd 23ain Ebrill 1979 cyn iddo adael i wasanaethu yn Llanfihangel Aberbythych â Golden Grove ger Llanelli. Bu hefyd yn ficer Llanfihangel Genau'r-glyn a Llangorwen, 1989-1995.

Gwelir yma lun ohono wrth ddrws eglwys Sant Ioan wedi iddo gynnal bedydd ar ddydd Sant Bartholomeus ym 1975.

Bu gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Castellnewydd Emlyn, dydd Gwener, 30 Awst, 2019 am 11.00 o'r gloch. Claddwyd ym mynwent Llanelli a'r Cylch am 2.00 o'r gloch.

**Jin, Llanrwst a Thregaron**

Braf iawn oedd gweld nifer fawr ohonach chi ar faes y Brifwyl yn Llanrwst fis diwethaf. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich hun, a llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu! Roedd gan Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 stondin ar y maes, ac fe fu llawer yn galw heibio i gael mwy o wybodaeth ac i brynu nwyddau - gan gynnwys ein jin ni, Trafferth Mewn Tafarn. Bu'r jin hefyd ar werth ar stondin Siop y Pethe, ac mae'n braf gallu adrodd bod nifer wedi dod i chwilio amdano'n unswydd ar ôl gweld ein presenoldeb ar wefannau cymdeithasol.

Ar ôl y llwyddiant o werthu'r 400 potel cyntaf, a gyda'r galw am y jin yn parhau, fe benderfynon ni fel pwyllgor fwrw ati i ail-fuddsoddi'r elw mewn ail batch. Doedd

dim llawer o ddewis, mewn gwirionedd, am nad oedd ganddon ni'r un botel ar ôl i fynd i'r Eisteddfod! Felly mae stoc newydd sbon wedi cyrraedd, ac mae'n rhaid diolch yn fawr iawn i Aled Rees a Siop y Pethe yn Aberystwyth am ein cynorthwyo gyda thalu am yr ail ddistylliad, ac mae eu cyfraniad a'u cymorth busnes wedi bod o help mawr.

Felly, ar ôl gwerthu'r cyfan oll mae ein potential elw dros £12,000 i gyd. Fe fydd hyn, ynghyd a'r hyn sydd eisioes wedi cael ei gasglu mewn rhoddion a thrwy werthiant raffl, yn golygu y byddwn ni wedi mwy na dyblu ein nod o £7,000. Rhaid diolch i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yn hyn, a chofiwch nawr bod y Nadolig yn nesau bod potel o jin Trafferth Mewn Tafarn yn anrheg delfrydol! Mynnwch eich potel o Garej Tŷ Mawr, neu drwy gysylltu gydag aelodau o'r pwyllgor. Braf yw cael adrodd hefyd bod y botel nawr ar werth hefyd yn Siop y Pethau, Aberystwyth, Crwst yn Aberteifi, Canolfan Rhiannon yn Nhregaron ac yn Siop Cynfelyn yn Nghaffi Cletwr yn Nhre'r-ddôl.

Gyda'n golygon nawr yn troi at ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â Thregaron ymhen 11 mis, fe fyddai'n braf gallu cyfarfod cyn diwedd y mis i roi cynlluniau yn eu lle ar gyfer ymgyrch i hyrwyddo'r Brifwyl yn ein hardal ni. Rydyn ni wedi trefnu cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, 1af Hydref am 8yh. Gobeithio eich gweld chi yna.

Sara Gibson, Cadeirydd Pwyllgor Apêl Trefeurig, Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020

**Marwolaeth**

Ar Orffennaf 1af claddwyd Gaetano ("John") Barba yn Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch. Yn frodor o Sicily bn'n byw ym Mhenrhyn-coch yn ystod ei flynyddoedd olaf gyda Mary, ei ofalwraig a phartner. Roedd yn 88 oed. Cydymdeimlwn a'r cysylltiadau.

**Diolch**

Diolch am yr haf a fu'n hyfryd
A chael gweld pethau yn tyfu'n eu pryd.
Wedi cael hwyl a sbri wrth fwynhau
Gyda y teulu a llawer o ffrindiau.
Diolch am gael iechyd a nerth i droedio,
Oes! Mae gennym lawer i ddiolch amdano.
Er hyn i gyda mae rhaid i ni gofio
Am y rhai fu mewn tristwch unwaith eto.
Llawer ohonynt fu yn gyfeillion i ni
Ond bellach yn hapus yng nghesail yr Iesu.

Mairwen, 2019

**Pêl-droed Penrhyn-coch**

**Tîm 1af**

Cwpan Cynghrair Cymru - 03/08 - Rhydaman 2 Penrhyn-coch 1
Cynghrair 17/08 - Llanrhaeadr 1 Penrhyn-coch 2
Cynghrair 24/08 – Penrhyn-coch 1 Rhuthun 2
Cynghrair 28/08 – Llanfair 0 Penrhyn-coch 1
Cynghrair 07/09 – Penrhyn-coch 1 Cegidfa (Guilsfield) 3
Cynghrair 10/09 – Penrhyn-coch 1 Corwen 0

Mae y tîm Menywod wedi symud i chwarae gyda Tîm Datblygu Aberystwyth

**Priodas**

Llongyfarchiadau i Llŷr James, Pen-banc, a Lowri Hâf Morgan ar eu priodas yn Eglwys St Pedr, Elerch, ar Fedi 7fed. Dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref yn Llannerchclwydau, Bont-goch.

Arddangosfa
'BYD BYCHAN'
DR CLIVE WILLIAMS
A gwaith medal gelf Seren Jenkins
gan gynnwys
TE PRYNHAWN
Yn Neuadd Eglwys Penrhyn-coch
Sadwrn 28ain Medi 2019
2.30– 4.00yp

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924



## Colofn Elin Jones

Hoffwn longyfarch pawb yng Ngheredigion sydd wedi bod yn gweithio'n galed iawn i sicrhau ein bod wedi mwynhau rhaglen wych o sioeau amaethyddol a digwyddiadau dros yr haf. Mae hefyd wedi bod yn gyfnod yr eisteddfodau. Llongyfarchiadau mawr i bob un o'r cystadleuwyr a'r enillwyr yn y ddau faes. Braf oedd gweld Rhiannon Ifans o Benrhyn-coch yn ennill Medal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghonwy – dwi wedi cael blas arbennig o ddarllen ei nofel *Ingrid*.

Mae wedi bod yn braf cael mynychu nifer helaeth o ddigwyddiadau drwy'r sir yn y misoedd diwethaf, a da yw gweld y busnesau twristaidd sydd mor bwysig i ni yn ffynnu.

Yn ddiweddar dwi wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithasau Parkinsons, i hyrwyddo eu gwasanaethau yn Ysbyty Bron-glais yn dilyn ymddeoliad y nyrs arbenigol. Hyd yn hyn mae Bron-glais wedi methu ac ail-lenwi'r swydd, sydd wedi gadael bwlch yn y ddarpariaeth. Mae'n rhaid datrys y sefyllfa hon ar frys a gosod cynllun hir-dymor er mwyn sicrhau darpariaeth arbenigol i bobl sy'n cael eu heffeithio gan Parkinson's, a'u teuluoedd.

Ac wrth gwrs mae Brexit mor gymhleth ag erioed. I fi, osgoi Brexit heb gytundeb yw'r flaenoriaeth fwyaf. Dyna pam siaradais yn y brotest ar brom Aberystwyth ble daeth tua 2,500 o bobl i ddangos eu gwrthwynebiad at benderfyniad Prif Weinidog y DU, Boris Johnson, i gau lawr trafodaethau yn San Steffan. Tra bod Senedd San Steffan yn cael ei chau, benderfynais fel y Llywydd i ail-ymgynnull Senedd Cymru yn gynnar, fel bod cyfle i Gymru drafod yr effaith byddai Brexit heb gytundeb yn ei gael arnon ni. Gaddwyd yn 2016 y bydd 'pwerau yn dychwelyd i'n senedd-dai', ac mai taro'r fargen hon fydd y cytundeb hawsaf erioed. Pleidleisiodd neb, bryd hynny, am y llanast sydd ohoni heddiw. Mi fyddaf yn parhau i weithio am ddatrysiad fydd yn diogelu economi a thrigolion Ceredigion.

Mae'r cynlluniau cyffrous i agor gorsaf drên Bow St yn mynd rhagddynt. Mae ychydig newidiadau ar y fynedfa wedi eu gorfodi oherwydd perygl llifogydd. Y disgwyl yw y bydd yr orsaf yn agor yn 2021.

## GOGINAN



**Priodas**
Dyma Richard, mab Peter ac Eileen Jones, Melody, Goginan briododd Carys Mair Davies, merch Martin a Delyth Davies, Llanbadarn ar Fehefin 8fed yng Nghastell Hensol, Caerdydd. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd lle mae Carys yn gyfreithwraig a Richard yn Rheolwr Gwerthiant i Cambrian Printers, Aberystwyth. Dathlwyd y mis mêl yn Jamaica.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Cathryn Morgan, Brynawel a'r teulu, ar farwolaeth trychinebus ei chwaer Anna Evans, Aberystwyth ar ôl digwyddiad pan yn gwersylla ym Methel, Caernarfon.

## DOL-Y-BONT

**Gwella**
Da yw gweld Phill Turner Wright, Bryndderwen, o gwmpas eto ar ôl bod yn Ysbyty Bron-glais ddechrau Gorffennaf yn cael clun newydd.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn yn fawr â Rhian, Gerald a Carys Watkin, Fferm Henllys, gan i Rhian golli ei thad, Billy Williams, Tŷ Du, ddiwedd Gorffennaf.

**Priodas Arian**
Estynnwn ein llongyfarchiadau i Rhian a Gerald Watkin, Henllys ar achlysur dathlu eu priodas arian yn ystod mis Awst.


CIGYDD BOW STREET
01970 828447
Deli
BOW STREET BUTCHERS SHOP
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

HEB DAI
HEB DDYFODOL.
2YP SADWRN 12 HYDREF
CANOLFAN MORLAN, ABERYSTWYTH
Cynghorydd Loveday Jenkin, Mebyon Kernow;
Màrtainn Mac a'Bhàillidh, Misneachd (Yr Alban) ac eraill
Mae mwy a mwy o bobl yn wynebu anawsterau gwneud cartref ac aros yn eu hardal leol.
Yn ei dro, mae hynny'n tanseilio bywyd cymunedol, ein trefi a'n pentrefi a'r Gymraeg. Mae angen cyfundrefn eiddo arnon ni sy'n sicrhau bod prisiau tai yn adlewyrchu'r hyn mae pobl leol yn gallu fforddio.
Beth allwn ni ddysgu gan wledydd eraill am sut i ymdrin â'r broblem? Dewch i ddatgan yn glir: Nid yw Cymru ar Werth!
cymdeithas.cymru
#cyfcyff

Trydan
WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru




# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL




**Taith gerdded Apêl Melindwr**
Cynhaliwyd daith gerdded ardderchog ar y 15ed o Fehefin o gwmpas Cwm Rheidol er mwyn codi arian tuag at Eisteddfod Ceredigion 2020. Daeth grwp sylweddol o gerddwyr ynghŷd dan arweiniad y dyn ifanc lleol, Ioan Lord. Diddanwyd y cerddwyr gan wybodaeth eang Ioan o hanes diwydiannol y cwm. Buodd y tywydd yn garedig ac fe godwyd swm sylweddol o dros £600 punt tuag at yr achos. Diolch i bawb am eu gwaith caled wrth baratoi am y daith, i Ioan am arwain, i Michael Morgan am gynnig ei sgiliau cymorth cyntaf, i gwmni Tŷ Nant am noddi'r poteli dŵr ac i Statkraft am ddarparu lluniaeth hyfryd.

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Ioan Lord ar raddio ym Mhrifysgol Bangor BA mewn Hanes Cymru gydag Archaeoleg, Anrhydedd Dosbarth Cyntaf. Cafodd hefyd wobr am y traethawd hir hanes gorau. Dymuniadau gorau iddo ar ei gwrs doethuriaeth yng Nghaerdydd a gyda'i fusnes newydd – gweler isod.



**Gwella**
Braf yw gweld John Lewis Dolgamlyn wedi gwella mor dda ar ol ei lawdriniaeth yn Ysbyty Treforus. Daeth yr alwad I fynd i'r ysbyty yn sydyn iawn ond mi fu y cyfan yn llwyddiant mawr. Dymuniadau gorau a daliwch ati I wella.

**Addysgol**
Mae y plant yn ein cymuned yn tyfu i fyny, Dymuniadau gorau i Seren Skipp a Gwenan Hoskins yn Ysgol Penweddig . Mae Ifan Ellis, Dolhaidd, a'i gyfnither Erin Ellis-Barr newydd ddechrau yn Ysgol Pen-llwyn ac erbyn hyn mae eu brodyr Twm a Carn yn mynychu y Cylch Meithrin.Anodd credu fel mae yr amser yn hedfan.

**Capel Bethel, Cwmrheidol**
Daeth Capel Bethel i berchnogaeth Louise Short a Alice Forward ym mis Ionawr 2018, ac mi agorwyd y drws am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd. Cafodd y tir ei brynu ar gyfer y Capel a'r fynwent oddi wrth teulu Stevens, Troedrhiwsebon, yn y flwyddyn 1870. Capel Annibynwyr oedd yr adeilad yn wreiddiol. Dechreuwyd ar y gwaith o adnewyddu y Capel yn ystod haf 2018 a chynhaliwyd parti bach ar gyfer ffrindiau a thrigolion yr ardal ar nos Galan. Defnyddir yr adeilad ar gyfer gwaith celf ond y gobaith yw y bydd y gymuned leol hefyd yn ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau eu hunain. Cynhaliwyd arddangosfa "Reconstructing Duccio" ym mis Ebrill a dangoswyd y ffilm"in our hands"gan y Landowners Alliance fel rhan o waith Amgueddfa Ceredigion ar tirlunoedd. Cynhaliodd Patrick Lawlor Penffrwd ddiwrnod Mindfulness llwyddiannus iawn ym mis Mehefin gyda yoga, tai chi a gweithdai ar fyfyrdod a maeth ac mae yn gobeithio gwneud hyn eto yn y dyfodol.
Ym mis Chwefror 2020 y gobaith yw cynnal penwythnos o adfer cloddiau a thorri coed yn y fynwent. Bydd yna fwyd ar gael i unrhyw wirfoddolwr!
Bydd y manylion yn cael eu rhoi ar wefan y Capel www.capelbethel.org neu drwy gysylltu gyda Alice neu Louise ar 01970 880710.

## ANTURON MWYN GORLLEWIN CYMRU

**Teithiau tywys newydd i hen weithfeydd mwyn canolbarth Cymru**
Mae hen weithfeydd mwyn ardal Aberystwyth wedi cael eu gweithio am gopr, plwm a sinc ers yr Oes Efydd, gan eu gwneud ymhlith y safleoedd diwydiannol cynharaf ym Mhrydain. Am y tro cyntaf yn eu hanes, mae rhai o'r gweithfeydd yn cael eu dangos i'r cyhoedd trwy deithiau tywys arbenigol dan arweiniad Ioan Lord. Bydd y teithiau hyn yn mynd ag ymwelwyr i ardaloedd sydd heb eu cyffwrdd ers i'r mwynwyr olaf adael dros ganrif yn ôl.

Sefydlwyd Anturon Mwyn Gorllewin Cymru/Mid Wales Mine Adventures yn 2019 i wneud hanes ac olion pwysig treftadaeth fwyngloddio yr ardal yn hygyrch i'r cyhoedd. Mae'n cynnig ystod o deithiau lle gall pobl weld ac archwilio'r safleoedd ar yr wyneb ac o dan ddaear, yn ogystal â gweld a dysgu am dirwedd, pobl ac amodau gwaith y mwynwyr gynhanesyddol hyd at bobl dechrau'r ugeinfed ganrif. Mae rhai o'r lleoliadau ymhlith y safleoedd diwydiannol pwysicaf a hynaf yng Nghymru. Nod Anturon Mwyn Gorllewin Cymru yw ennyn diddordeb cynulleidfaoedd lleol a chenedlaethol wrth hyrwyddo hen ddiwydiant mwyngloddio canolbarth Cymru, sydd wedi'i esgeuluso rywfaint ers blynyddoedd lawer.

Mae nifer fawr o hen weithfeydd mwyn canolbarth Cymru wedi cael eu tirlunio



# MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

a'u difetha, ac mae hyn yn parhau; safleoedd sydd ag arwyddocâd enfawr yn nhreftadaeth Cymru, ac a luniodd a thrawsnewidodd orllewin canolbarth yr wlad yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ychydig iawn o'r safleoedd hyn sy'n cael eu gwarchod; mae rhai o safleoedd diwydiannol cynharaf Ewrop yng nghanolbarth Cymru bellach yn cael eu defnyddio fel tomenni sbwriel; safleoedd a gyfrannodd at ffurfio un o'r diwydiannau mwyaf a phwysicaf a gafodd canolbarth Cymru erioed.

Sefydlwyd Anturon Mwyn Gorllewin Cymru i hyrwyddo diddordeb yn nhreftadaeth fwyngloddio'r ardal trwy deithiau tywys drwy'r tirwedd ddramatig ac i mewn i'r gweithfeydd tanddaearol eu hunain.

*"Rwyf bob amser wedi synnu at gyn lleied o sylw a roddir i ddiwydiant mwyn canolbarth Cymru. Dechreuwyd o leiaf 10 o'r gweithfeydd hyn yn yr Oes Efydd Gynnar dros 4,000 o flynyddoedd yn ôl, ac mae diffyg gwerthfawrogiad a chynrychiolaeth y diwydiant yn anghredadwy. Mae'r ystod o deithiau ar yr wyneb a thanddaearol wedi'u hanelu at unrhywun sydd â diddordeb mewn hanes, chwilotwyr tanddaearol neu unrhywun sy'n chwilio am rywbeth gwahanol ac anturus i wneud yn yr ardal. Bwriad y teithiau yw i hyrwyddo'r rhan annatod hon o hanes a diwylliant Cymru, yn ogystal â darparu profiad cofiadwy i ymwelwyr a thwristiaid i'r ardal."*

Bydd y teithiau tywys ar yr wyneb a thanddaearol yn cyflwyno ymwelwyr i geudyllau a thirwedd ysblennydd un o ddiwydiannau anghofiedig Cymru, ac yn dathlu bywydau a gwaith y cannoedd o deuluoedd a weithiodd yn y llefydd yma drwy archwilio labyrinth o dwneli tanddaearol sy'n cynnwys nifer o arteffactau ac hen offer sydd heb eu cyffwrdd ers caewyd y gwaith. Bydd yr ystod o deithiau yn ennyn diddordeb cynulleidfaoedd lleol a chenedlaethol trwy ddarparu profiad cofiadwy o antur a darganfyddiad, yn ogystal â hanes a threftadaeth Cymreig.

Am ragor o wybodaeth ac i archebu'ch taith, e-bostiwch Ioan Lord ar rheilffordd@gmail.com, ffoniwch 07415 440172 neu ewch i'r wefan https://www.midwalesminetours.com/?lang=cy i gael mwy o wybodaeth a rhestr o'r teithiau a'r dyddiadau sydd ar gael.

Llun o wefan https://www.midwalesminetours.com/?lang=cy

**Suliau Madog 2.00**

*Medi*
22 Bugail
29 Bugail

*Hydref*
6
13
20 Bugail
27

**Canlyniadau Is-etholiad Llanbadarn Fawr - Ward Sulien**

Llongyfarchiadau I Matthew Woolfall Jones, Lodj Gelli Angharad, ar ennill y mwyafrif o'r pleidleisiau yn is-etholiad Llanbadarn Sulien a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 18 Gorffennaf 2019. Mathew, o Blaid Cymru, sydd bellach yn cynrychioli'r ward fel Cynghorydd y sir ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion. Daeth y swydd yn wag yn dilyn marwolaeth drasig y diweddar Paul James ym mis Ebrill 2019.
Y canlyniad oedd:
Mathew Woolfall Jones (Plaid Cymru) 186
Michael Chappell (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) 93
Richard William Henry Layton (Llafur Cynru) 15

**Llongyfarchiadau**

i Tristan Davies, Llwyngwyddil, Cefn-llwyd ar ei lwyddiant yn adran y defaid Beltex yn y Sioe Frenhinol.

**Croeso**

i Daniel a Georgia i Cwm Mudol, Capel Dewi. Dymunwn pob hapusrwydd yn eich cartref newydd.

**Gwellhad buan**

i Mr Cadfryn Thomas o Lanllwni, sydd yn cartrefu gyda'i fab Dilwyn ym Mrynheulog ar ôl treulio cyfnod yn Ysbyty Bron-glais.

i Mrs Dorothy Evans, Murmur y Coed, ar ôl derbyn triniaeth i'w llygad.

**Dymuniadau gorau**

i Ifan Morris, Plas y Fronfraith, yn Ysgol Penweddig.

**Chwaraeon**

Llongyfarchiadau i Martha Rowlands, Cwm Main, enillodd y Victrix Ludorum ym mlwyddyn 8 ym mabolgampau'r ysgol a thorrodd record y 300m sprint i ferched blwyddyn 8 ym Mhenweddig. Da iawn Martha!

**Coleg**

Dymuniadau gorau i Aneurin Rowlands, Cwm Main, ar gychwyn cwrs yng Ngholeg Amaethyddol Llysfasi, Rhuthun.



**Bedydd**

Ar Sul, 11 o Awst yng Nghapel Madog, bedyddiwyd Blodwen, merch Angharad a Rhidian, Cwm Main gan y gweinidog, Y Parchg Ddr Watcyn James. Pob dymuniad da i'r teulu.



**Sioeau**

Llongyfarchiadau i Lleucu gafodd y wobr gyntaf yn nosbarth welshcakes yn y Sioe Frenhinol a Gruffudd gafodd gyntaf yn "Fy hoff bwdin" ac ail yn "Wyneb ar blat" yn yr un sioe.

**Adran Aberystwyth**

**CYNGERDD DATHLU'R DEG**

Mae deng mlynedd wedi mynd heibio ers sefydlu Adran Aberystwyth. I nodi'r achlysur, bwriedir cynnal cyngerdd ym mis Rhagfyr yn Aberystwyth. Rydym yn awyddus i gael cymaint â phosib o aelodau cyfredol a chyn-aelodau i gymryd rhan yn y cyngerdd. Mae croeso hefyd i aelodau newydd ymuno.

Os oes gennych ddiddordeb ac am gymryd rhan plis cysylltwch â ni ar **Lona.phillips@btinternet.com**

# Rees Thomas

Bachan ymarferol yw Rees Thomas, bachan fydd yn gwneud ei waith bob amser heb unrhyw ffys na ffwdan. Fydd e byth yn tynnu sylw ato fe ei hunan, dim ond bwrw ati i gyflawni'r gwaith. Unwaith y bydd e wedi cael syniad, cofiwch, fydd dim troi arno. Anamal iawn y bydd e'n dadle yn gryf â rhywun, ac os bydd rhywun yn anghytuno â'i ffordd o wneud rhyw waith arbennig, yn hytrach na dadlau ag e, rhyw esgus nad yw e wedi ei glywed yn iawn y bydd Thomos a dal ati i ddilyn ei ffordd ei hunan o wneud y jobyn. Boed yn jobyn mawr neu bach, bydd yn rhaid pwyso a mesur pob dim yn ofalus a chynllunio'r cyfan yn drwyadl cyn dechrau ar ei broject. Does dim hastu i fod.

Cafodd ei eni ym March Gwyn, Efail-wen cyn i'r teulu symud yn ddiweddarach i Alltfach yn Login. Yn ôl y sôn, yn Alltfach y byddai man cyfarfod y Bedyddwyr cynnar yn Sir Benfro. I Ysgol Gynradd Ffynnon Wen yr aeth e'n blentyn ac yna i Ysgol Uwchradd Hendygwyn ar Daf. Mae'r ardal hon yn dal yn agos iawn at ei galon oherwydd yn ei blentyndod roedd yno gymuned glòs iawn ac mae perthyn a bod yn deyrngar i gymuned yn bwysig iawn i Rees Thomas. Yn amal, wrth siarad ag e bydd geirfa Sir Benfro fel 'rhoces', 'perci' a'r 'feidir' yn britho ei sgwrs. Yn wir, mae'n dal yn aelod yng nghapel y Bedyddwyr, Login, lle cafodd ei fedyddio. Nid un i anghofio ei wreiddiau mo Rees



Y TINCER

PAPUR BRO GENAU'R GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

CYNLLUNYDD CADAIR

Cylch Cinio Aberystwyth roddodd gadair Prifwyl 1992 Aberystwyth hefyd a Rees gynigiodd un o'i gyn ddisgyblion i wneud y Gadair – Robat John Rowlands, Cwm Rheidol.



Dewisodd y flwyddyn iawn i fod yn fyfyriwr yng Ngholeg y Drindod, sef y flwyddyn y derbyniodd y Coleg ferched am y tro cyntaf. Yno, y cwrddodd â Mary a blagurodd y berthynas rhyngddynt gan arwain at briodas. Aeth o'r coleg i ardal Abertyleri yng Ngwent fel athro gwaith coed, ardal lle roedd cymdeithas glòs iawn yn bodoli, a fyddai'n ei atgoffa o'i gynefin a cheir aml i stori ganddo am ei hynt a'i helynt yno ar ei foto beic.

Symudodd wedyn i Ysgol Uwchradd Llanrhymni yng Nghaerdydd lle bu'n athro poblogaidd iawn. Yno, rhoddodd ei holl ynni ar drefnu a hyfforddi timau traws gwlad yr ysgol. Enillodd nifer o'i ddisgyblion wobrau cenedlaethol yn y gamp. Ardal digon difreintiedig oedd Llanrhymni ar y pryd, ond câi Rees Thomas barch mawr ganddynt a byddai yntau'n ymddiried ynddynt a mynd â hwy allan i wersylla dros nos mewn pebyll ac ar deithiau i wahanol goedwigoedd.

Byddai Rees bryd hynny yn chwarae rygbi gan chwarae i Glwb Rygbi Caerffili a Llandaf. Na, nid fel blaenwr caled y chwaraeai ond yn hytrach yn yr olwyr, fel canolwr. Gellir dychmygu fod amal i daclwr wedi dioddef wrth geisio atal y rhedwr cydnerth hwn pan oedd yn ei anterth. Pan oedd yn dysgu yn Llanrhymni roedd yn byw yn y Bont-faen lle gwnaeth gyfeillion oes. Yn wir am flynyddoedd byddai un teulu yn dod i aros bob blwyddyn yn Ynys Hir, a byddai'n gwahodd Rees a Mary, wedi iddynt symud i Bow Street, i ymuno â hwy yn y gwesty crand hwnnw, er prin bod y bwydydd bach ffansi a gaent yno yn hollol at ddant Rees!

Ymunodd â staff Ysgol Penweddig yn fuan wedi i'r ysgol gael ei sefydlu a daeth yn rhan annatod o'r ysgol ac o'r gymuned yn Bow Street. Nid dim ond sicrhau graddau da i'r disgyblion oedd nod yr athro gwaith coed ond meithrin sgiliau'r disgyblion i drin a thrafod coed, sgiliau a fyddai ganddynt am byth ymhell wedi iddynt adael yr ysgol. Yr Ystafell Gwaith Coed oedd ei deyrnas, ni fyddai Ystafell yr Athrawon o fawr ddefnydd iddo nag unrhyw ystafell arall, hyd yn oed wedi iddo gael ei apwyntio'n Ddirprwy Brifathro. Yr unig bryd y byddai mewn cysylltiad â'r athrawon eraill oedd y peth cyntaf bob bore ac amser cinio. Yr oedd cael llond bola o ginio yn bwysig a rhaid oedd clirio'r bwyd i gyd, achos bod 'bola yn gefen' ac fel bydde fe'n gweud, 'Cewn ni lai tro nesa os na fytwn ni'r cwbl!'

Yna, byddai'n agor yr Ystafell Gwaith Coed lle byddai twr o blant yn ymgasglu i fwrw ati i gwblhau gwaith oedd ar ei hanner ganddynt, yn fwrdd, bin bara neu gloc, nid fel rhan o waith cwrs ond fel anrheg i fynd gartre. Bydde digon o sbort i'w gael yno, er na fyddai dim croeso i neb actio'r ffŵl. Byddai'n rhaid iddyn nhw fwrw ati a gweithio ar eu prosiect o ddifrif a chofio rhoi yr holl offer yn daclus yn ôl lle cawson nhw fe. Cofiwch, nid bechgyn yn unig fyddai yno, byddai nifer o ferched hefyd yn ymroi ati. Nid yw'n syndod yn y byd felly bod nifer o fechgyn Ysgol Penweddig wedi dewis gyrfa fel seiri coed a bod eraill yn dal i gofio yr hyn a ddysgon nhw yn yr ysgol wrth wneud gwaith cynnal a chadw yn eu cartrefi.

Mae cyfraniad Rees a Mary yr un mor allweddol yn y pentref, Mary wedi ymwneud â'r capel a'r neuadd ar hyd y blynyddoedd. Dros y blynyddoedd ni fu Rees yn segur. Daeth Cymdeithas Edward Llwyd yn bwysig iawn i Rees a Mary ac yn deillio o hynny trefnodd fod trigolion ardal Bow Street yn cyfarfod y tu allan i'r Neuadd i fynd ar daith bob prynhawn dydd Mawrth. Llwyddodd i greu dros hanner cant o gylch deithiau pwrpasol iddynt ac mae'r criw yn dal i fynd o nerth i nerth.

Yn ystod gwyliau ysgol byddai'n ymwneud â phrojectau gwaith coed yn y gymuned ar hyd y blynyddoedd. Ewch i weld drws festri capel Bethlehem, Llanfihangel Genau'r-glyn a chewch gyfle i weld ei waith ar ei orau. Doed dim rhyfedd bod y Cylch Cinio wedi ei wahodd i greu Cadair Eisteddfod Genedlaethol 2020 ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at weld ei gampwaith.

**Alun Jones**

# Colofn Enwau Lleoedd

Mae un o siarteri Abaty Ystrad Marchell, a luniwyd yn 1201, yn disgrifio ffiniau cwmwd Cyfeiliog ym Mhowys, gan enwi nifer o leoedd yng nghyffiniau Pumlumon fel hyn:

'inde per **Dengum** usque ad eius ortum, et inde usque ad **Kelligogeu**, et inde usque ad **Reidiaul**, et per **Reidiaul** usque ad **Gwrhet Kei**, et inde **Reidiaul** iterum usque ad **Aber Camdwr Keueiliauc**, et ab **Aber Camdwr Keueiliauc** usque ad eius ortum, et inde in directum usque ad **Blain eynniaun**'[1];

neu o'i gyfieithu:

*yna ar hyd **Dengwm** i'w tharddiad, ac yna i **Gelligogau**, ac yna i'r **Rheidol**, ac ar hyd **Rheidol** i **Gwrhyd Cai**, ac yna **Rheidol** eto i **Aber Camdwr Cyfeiliog**, ac o **Aber Camdwr Kyfeiliog** i'w tharddiad, ac yna mewn llinell syth i **Flaen Einion**.*

Mae ffin y cwmwd yn y fan hon yn ymestyn o nant ***Dengwm*** neu ***Dyfngwm***, llednant i afon Clywedog, rhyw filltir a hanner i'r gorllewin o Benffordd-las, sir Drefaldwyn, hyd at ***Flaen Cwm Einion*** uwchlaw Eglwys-fach, Ceredigion. Lleolir gweddill yr enwau, sef y rhai sydd o ddiddordeb i ni, yn rhan uchaf dyffryn Rheidol, uwchlaw cronfa Nant-y-moch heddiw.

Mae'n werth esbonio mai *afon Hengwm*, yn hytrach na ***Rheidol***, a ddefnyddir bellach am y rhan ohoni sydd uwchlaw lluest Nant-y-llyn. Efallai i'r newid ddigwydd oherwydd y dybiaeth mai Llyn Llygad Rheidol (sy'n cyflenwi Rheidol drwy Nant y Llyn) oedd tarddiad afon Rheidol, a'i bod felly yn amhriodol galw'r gangen arall (sef y brif gangen sy'n tarddu rhwng Llyn Bugeilyn a Charn Fach Bugeilyn) â'r enw hwnnw.

Ond beth am yr enwau sy'n weddill?

Gellir gweld adfeilion lluest ***Gelligogau*** hyd heddiw ar lan ddwyreiniol Nant Gelligogau, llednant i afon Hengwm. Mae'r enw (sy'n gyfuniad o'r elfennau *celli* 'coed' a ffurf luosog *cog* 'y gwcw') yn brawf bod coed unwaith yn tyfu ar yr ucheldir moel hwn.

Mae'n lled sicr mai hen enw oedd ***Aber Camdwr Cyfeiliog*** am y fan lle llifai afon Llechweddmor i'r Rheidol, llecyn sydd bellach dan ddŵr pen uchaf cangen ddwyreiniol cronfa Nant-y-moch.

Mae hynny'n gadael un enw, ***Gwrhyd Cai***, na cheir tystiolaeth ohono mewn unrhyw ffynhonnell arall, ond y gellir dyfalu, o'i leoliad mewn perthynas â'r enwau eraill, ei fod yng nghyffiniau Hengwmannedd.

Cyfuniad yw *gwryd*, *gwrhyd* o'r elfennau *gŵr* a *hyd*. Mae'n dynodi'r mesur o flaen bysedd un llaw hyd flaen y llall gyda'r ddwy fraich ar led, ac yn cyfateb i'r Saesneg 'fathom'.

Gan fod *Cai*, un o farchogion y Brenin Arthur, eisoes wedi ei gysylltu â Phumlumon yn stori Barf Dillus Farfog yn chwedl Culhwch ac Olwen, tybed ai'r ffigwr chwedlonol hwn sydd dan sylw yn yr enw.

Yr awgrym yw fod modd i *Cai* sefyll yn y man hwn gyda'i freichiau ar led gan gyffwrdd dwy ochr y dyffryn. Rhaid ei fod yn gawr o ddyn a does ryfedd iddo gael ei alw'n *Cai Hir*!


Noda Melville Richards[2] ddwy enghraifft arall o'r enw y gellir cymharu â hwy sef ***Gwryt Kei*** a enwir yn siarter Llywelyn Fawr i Fynachlog Aberconwy wedi ei dyddio yn 1199, ac a gysylltir â Phenygwryd a Nantygwryd, sir Gaernarfon; ac ***Wuritkei*** sy'n digwydd yn un o siarteri Abaty Dore, swydd Henffordd, tua 1240, am le ym mhlwyf Gwenddwr, sir Frycheiniog.

**Angharad Fychan**

**Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru** cymdeithasenwaulleoedd.cymru

1 1997 *The Charters of the Abbey of Ystrad Marchell*, ed. Graham C. G. Thomas t.174.

2 1969 *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* t.263.




***Map modfedd yr Arolwg Ordnans 1960. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban (CC BY 4.0). Ychwanegwyd rhai enwau lleoedd***

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
Brecwast
ar gael
01970 820 050
Pennau

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán
01970 820149
07980 687475

# BOW STREET



**Capel y Garn 10.00**
*Medi*
22 Bugail
29 Bugail

*Hydref*
6 Noddfa
13 Bugail
20 Bugail
27 Lyndon Lloyd

Noddfa
**10.00 oni nodir yn wahanol**
**Medi**
22 Y Parchg Richard Lewis
29

**Hydref**
6 Y Parchg Richard Lewis Y Garn yn ymuno
13 Y Parchg Richard Lewis cymundeb
20 Cyfeillach
27 Mrs Beryl Vaughan

**Codi £300**
Ddiwedd Awst, torrodd un ferch ddewr 12 modfedd o'i gwallt er mwyn helpu Ymddiriedolaeth y Little Princess, a chyfrannu dros £300 i'r elusen sy'n helpu plant sydd wedi colli eu gwallt drwy salwch neu driniaeth feddygol. Pan glywodd Lilah Smith, 6 oed, sy'n ddisgybl yn Ysgol Rhydypennau, am yr elusen, roedd am wneud rhywbeth i'w helpu. "Pan awgrymodd Lilah yr hoffai dorri ei gwallt, soniais wrthi am yr elusen. £100 oedd y targed gwreiddiol, ond cododd y swm i £300 o fewn dim. Ry'n ni'n rhyfeddu at haelioni pobl," meddai Rachel, ei mam. Ewch i'r dudalen codi arian (www.jusgiving.com/fundraising/lilahshaircut) – mae croeso mawr i unrhyw un gyfrannu. Llongyfarchiadau mawr, Lilah!

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Richard a Mair Lewis, 40 Maesceiro ar farwolaeth cefnder i Richard ym Mhen-y-bont Fawr yn dilyn damwain ar y fferm ym mis Mai.

Hefyd â Jonathan a Sian Eurig, Anest a Llŷr, 4 Cain Fallen, ar farwolaeth tad Jonathan – Alun Eirug Davies yn Aberystwyth ar Awst 21.

**Croeso**
Croeso cynnes i Robin a Jennifer Clark, symudodd i Dŷ Capel y Garn ddechrau'r haf.

**Cartref newydd**
Dymuniadau gorau i Rheinallt Lewis, 38 Maesceiro yn ei gartref newydd yn Aberteifi.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Sioned (Elgar gynt) a'r teulu ar farwolaeth Andrew, ei chymar yn Nolgellau ar Orffennaf 28ain.

**Gwella**
Da deall fod Vernon Jones, Gaerwen, yn gwella ar ôl cyfnod byr yn Ysbyty Bron-glais ganol mis Awst.

**Noddfa**
Ar y 14eg o Orffennaf, aeth criw o gyfeillach Noddfa ar drip i Gapel Neuadd-lwyd, Ciliau Aeron. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Cassie Jones, sydd yn wreiddiol o Aberystwyth; roedd ei heglwys hi o Fangor yn bresennol hefyd. Ar ôl y gwasanaeth, cafwyd anerchiad difyr gan Mrs Marina James, Ysgrifennydd Capel Neuadd-lwyd, ar "Neuadd-lwyd a Chenhadon Madagascar" a chyfle i edrych o amgylch yr adeiladau. Wedi hynnny, aethpwyd ymlaen i gael te prynhawn blasus yng Nghegin Haul, Abermeurig.

**Diolch**
Dymuna Vernon, Gaerwen, ddiolch i Osian, Ann a Non a'u teuluoedd am eu cariad a'u gofal yn ystod yr wythnosau diwethaf. Diolch i'r cymdogion a ffrindiau am bob galwad ffôn a phob cerdyn a ddaeth trwy'r drws. Cefais ofal arbennig yn Ysbyty Bron-glais a diolch i'r holl staff. Yn bennaf oll diolch i Dilys am ei gofal a'i chadernid trwy'r cyfan. Byddaf yn tramwyo yr hen lwybrau yn fuan gobeithio. Diolch o waelod calon i bawb.

**Dathlu pen-blwydd**
Llongyfarchiadau i Mrs Mair Davies, Brynsiriol, a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed yng nghwmni ei theulu ym mis Gorffennaf.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Nigel, Neville ac Andrew Roberts a'u teuluoedd ar farwolaeth eu mam, sef Mrs Ellen Roberts, Kincraig.

Cydymdeimlwn hefyd â Richard a Paul Morgan a'u teuluoedd ar golli eu mam, sef Mrs Ruth Morgan, Caer Villa ar 2 Awst.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd nos Lun, 8 Medi, yn Neuadd Rhydypennau pryd yr estynnodd ein Llywydd, Mrs Mair Lewis, groeso cynnes i bawb cyn mynd ati i fwrw golwg ar y rhaglen sydd wedi ei pharatoi ar gyfer y flwyddyn. Cyflynwyd y fantolen gan ein Trysorydd, Mrs Meinir Roberts, ac fe'i derbyniwyd yn unfrydol. Wrth son am faterion ariannol nodwyd mai cyfanswn casgliad y Te Dathlu oedd £75 a bod Mrs Beryl Hughes, Pantyperan, wedi ychwanegu £300 ato, sef y casgliad a wnaeth ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar, a bod cyfanswm o £375 wedi ei drosglwyddo i Uned Chemotherapi Ysbyty Bron-glais. Diolchwyd yn gynnes iawn i Beryl am ei haelioni. Wedi delio â'r materion rhagarweiniol






Merched y Wawr Rhydypennau yn dathlu'r aur ym Mehefin.



mentrwyd ar ganu pennill o Gân y Mudiad.

Cyn cyflwyno gwestai arbennig y noson cyfeiriodd Mair at y brofedigaeth enbyd oedd wedi dod i ran Vivian a Teresa Davies ar teulu wrth iddynt golli Eiry. Cyfeiriwyd at y blynyddoedd y treuliodd y teulu yn Garn Villa ac fel yr oeddent yn gymait rhan o'r gymuned leol.

Seren Wyn Jenkins o Benrhyn-coch oedd ein gwestai arbennig ac wrth ei chyflwyno manteisiodd Mair ar y cyfle i'w llongyfarch ar ennill Medal Gelf, Dylunio a Thechnoleg yr Urdd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Ac fe gafwyd noson arbennig iawn yng nghwmni Seren. Eglurodd Seren bod dylanwad ei mam a'i mam-gu yn drwm iawn arni a'i bod wedi ymddiddori ym maes Celf a Chrefft ers yn ifanc iawn ac wedi cael pob cefnogaeth yn Ysgol Gynradd Penrhyn-coch ac ym Mhenweddig ac hefyd gan Melonie o Gapel Bangor pan nad oedd Penweddig yn medru darparu'r pwnc. Dangosodd amrywiaeth eang o wrthrychau deniadol a grewyd ganddi a'r uchafbwynt yn sicr oedd y bwrdd coffi unigryw fu'n fuddugol yn Eisteddfod yr Urdd. Wrth son am y bwrdd coffi eglurodd bod gweld gwaith celf Josie Russell yn Oriel Môn wedi bod yn ysbrydoliaeth iddi. Roedd y cyfan yn arddangos crefft a dawn artistig arbennig, ac yr oedd yn bleser cael cyfle i'w gwerthfawrogi. Wrth ddiolch i Seren ar ddiwedd ei chyflwyniad manteisiodd Mair ar y cyfle i ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

Enillwyd y Raffl gan Mrs Mair Davies ac fe gafwyd cyfle i gymdeithasu wrth gyfranogi o'r lluniaeth ysgafn a drefnwyd gan Mrs Gaenor Jones a Mrs Mair Davies. Bydd y cyfarfod nesaf ar 14 Hydref pryd y byddwn yn ymweld ag Amgueddfa Ceredigion ac yna'n cael lluniaeth yn y Blac yn Bow Street.

**Pob Dymuniad Da**

Yr ydym yn dymuno pob dymunuad da i Jordan Lloyd Jones ac i Anest Eurig wrth iddynt gamu ymlaen i'r lefel nesaf yn eu haddysg, Jordan yn troi am Lundain tra bo Anest yn mynd i Gaerdydd i wneud y gyfraith a gwleidyddiaeth.










**Rhiannon Ifans *Ingrid***
**(Y Lolfa) 171t. £8.99**

Llongyfarchiadau calonnog i Rhiannon Ifans o Benrhyn-coch am ennill y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, a hynny am ei nofel Ingrid. Testun y gystadleuaeth oedd 'Cylchoedd' Daeth Ingrid i'r brig o blith 18 o ymgeiswyr.

Mae'r nofel wedi ei gosod yn Stuttgart, Yr Almaen. Mewn cyfweliad ar ôl y seremoni dwedodd Rhiannon Ifans ei bod yn awyddus iawn i dynnu sylw at ddiwylliant Ewropeaidd arall a gwahanol.

"Mae gan yr Almaen wleidyddiaeth fawr" meddai "ond mae ganddi hefyd ddiwylliant mawr, ac yn anffodus 'dan ni'n mynd i gau'n hunain oddi wrth rai o'r pethau hynny os awn ni i gyfeiriad penodol."




Naws Almeinig ddigamsyniol sydd i Ingrid gyda chryn wybodaeth am leoliadau, diwylliant ac arferion dinas Stuttgart ac am agweddau a gwerthoedd yr Almaen yn brigo drwy'r naratif. Mae cefndir yr awdur yn brigo i'r wyneb hefyd gyda'r geiriau annisgwyl "canodd cymydog o dramor Ar Gyfer Heddiw'r Bore" yn nathliadau'r *Heiligabend,* noswyl y Nadolig!

Bu Ingrid yn fenyw afieithus, egnïol a phenderfynol yn nyddiau ei chryfder, ond erbyn i ni gyfarfod â hi mae anghofrwydd a dryswch yn bwrw cymylau dros ei meddyliau, ac yn wir dros ei hunaniaeth. "Pwy ydyn ni pan mae'r cof yn diffodd?" yw ei chwestiwn wrth ymdrechu i alw rhywbeth i gof.

Mae'r dryswch yn cael ei gyfleu i ni ddarllenwyr mewn modd cyfrwys a chynnil, mor gyfrwys a chynnil yn wir nes fy mod i'n amau ar ôl darllen y ddau neu dri thudalen cyntaf mai fi oedd yn drysu. Gyda'r mymryn lleiaf o ddyfalbarhad, fodd bynnag, daeth hi'n amlwg mai dyfais oedd y llithro, neu efallai'r sboncio, o'r presennol i'r gorffennol ac o'r person cyntaf, fi, i'r trydydd person, hi. O sylweddoli hynny pleser oedd sylwi ar ddeheurwydd a chrefft y dweud, sydd yn herio'r deall drwy newid amser a pherson yn ddirybudd, a thrwy hynny'n llwyddo i gyfleu realiti'r profiad erchyll o golli'r cof.

Llifa hanes bywyd Ingrid drwy ffrwd ei hymwybod gan weu drwy'i gilydd a chrwydro yma a thraw, gydag ambell i gyffyrddiad ffraeth yn gwneud y rhwystredigaeth a'r trueni yn oddefadwy, bron. Yna daw argraffiadau a theyrngedau ei gŵr, ei mab a'i merch-yng-nghyfraith i helaethu a chadarnhau ei hanesion digyswllt hi. Os mai hanner rhith o hen wraig fach ddryslyd yn torri cabatsien yn yr ardd yn yr eira yw hi ar ddechrau'r llyfr, erbyn y diwedd mae hi'n berson crwn, cyfan, cyfarwydd.

Beirniaid y Fedal Ryddiaith eleni oedd Mererid Hopwood, Alun Cob ac Aled Islwyn:

"Stori a ymddengys yn dwyllodrus o syml, gyda haenau cyfoethog o fanylder seicolegol" meddai Alun Cob amdani.

"Gwaith llenor … crefftus a gwreiddiol … lle mae dyfnder y deall neu'r diffyg deall, neu'r deall am y diffyg deall yn mynnu ein sylw." oedd geiriau Mererid Hopwood.

"Mae gan Ingrid y gallu i gyfareddu o'r eiliad y cyfarfyddwn â hi gyntaf… mae yma lawer sy'n debyg o gosi dychymyg darllenwyr" meddai Aled Islwyn. Roedd y tri'n unfryd mai dyma'r gorau mewn cystadleuaeth gref.

Diolch i'r Eisteddfod am sicrhau ei bod yn cael ei chyhoeddi, ond tybed ai fi yw'r unig ddarllenydd fyddai wedi gwerthfawrogi nodiadau esboniadol ar ambell i air e.e. Neue Sachlichkeit, Tartort, UHU…..?

**Llinos Dafis**

**Cynhelir noson yng nghwmni Rhiannon Ifans yn rhaglen Cymdeithas y Penrhyn nos Fercher Hydref 16 am 7.30 yn festri Horeb, Penrhyn-coch.**

# Ysgol Penrhyn-coch

**Genedigaethau**

Llongyfarchiadau mawr i Ms. Catryn Lawrence a Mr. Gwilym Morgan ar enedigaeth eu mab Roni Gwilym Morgan ar Awst 23ain.

Llongyfarchiadau mawr i Mr. a Mrs. Tom Evans ar enedigaeth eu mab Emrys Ifan ar Orffennaf 30ain.

Dymunwn bob hapusrwydd i'r teuluoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod Roni Gwilym ac Emrys Ifan pan ddônt ar ymweliad i'r ysgol.

**Croeso**

Pob dymuniad da i Miss Rhian Cory fel ein Pennaeth yng ngofal, Mr. Bryn Shepherd fel ein Dirprwy Bennaeth yng ngofal ac i Miss Miriam Pritchard fel athrawes CA2 yn Ysgol Pen-llwyn dros gyfnod mamolaeth. Croeso cynnes i'r disgyblion newydd sydd wedi dod i'n plith sef, Lauren, Caio, Corey, Alfie, Gwenno, Elen, Vinnie, Edie a Lilah. Mawr obeithiwn y gwnewch chi fwynhau eich taith addysgiadol gyda ni.

**PROMS Ceredigion**

Rydym yn ymfalchï o yn y ffaith fod disgyblion bl.6 ac unigolion eraill wedi cymryd rhan yn noson PROMS Ceredigion ym mis Gorffennaf. Noson wych o adloniant.

**Tripiau Tymor yr Haf**

Aeth y Cyfnod Sylfaen i Quackers a Chyfnod Allweddol 2 i Gelli Gyffwrdd eleni ar gyfer ein tripiau Haf. Cafwyd amser da gan bawb.



**Gŵyl Bandiau Cymraeg**

Am ŵyl anhygoel. Mwynhaodd pawb brynhawn braf yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth yn gwrando ar fand Gwilym a chael hwyl yn gwneud gweithgareddau megis gwisgo i fyny. Diolch i'r trefnwyr – gobeithio y bydd hyn yn rhywbeth blynyddol!

**Mabolgampau Cylch Aberystwyth**

Cawsom ddiwrnod da yn y mabolgampau eleni. Da iawn i bawb a gynrychiolodd yr ysgol a llongyfarchiadau i'r disgyblion gafodd safleoedd. Campus! Tomos 3ydd Naid Uchel; Owen 1af rhedeg 100m; Steffan 2il rhedeg 800m; Ras Gyfnewid Bechgyn (Ysgolion 4 athro) – Owen, Logan, Tomos a Steffan 1af; Ras Gyfnewid Merched (Ysgolion 4 athro) – Katelyn, Leah, Lowri a Mari 1af.

**Gŵyl Chwaraeon y Borth**

Wrth i'r haul dywynnu dros ein pennau ar y traeth yn y Borth fe gawsom ddiwrnod bendigedig yn chwarae amrywiaeth o chwaraeon diolch i'r Urdd, Ceredigion Actif ac URC (WRU).

**Gwasanaeth Ffarwelio Blwyddyn 6**

Cawsom wasanaeth i ffarwelio â blwyddyn 6 ar y 16eg o Orffennaf. Dymunwn pob hwyl iddynt ym mlwyddyn 7 yn eu hysgolion Uwchradd. Cofiwch alw mewn i ddweud helo os ydych yn pasio!

**Sioe Frenhinol Cymru**

Llongyfarchiadau a da iawn i'r disgyblion a fu'n cystadlu yn y Sioe Frenhinol. Llwyddiant haeddiannol i Tomos, Lleucu, Gruffudd a Gwen am eich gwaith.

**Sioe Penrhyn**

Da iawn i'r disgyblion a fu'n cystadlu yn y sioe eleni. Mae'n amlwg eich bod wedi bod yn brysur iawn dros yr Haf. Llongyfarchiadau i'r rhai a gafodd wobrau.



**Diwrnod o Hwyl**

Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 draw yn Ysgol Pen-llwyn am ddiwrnod o hwyl i ddathlu diwedd Tymor yr Haf. Trefnwyd amryw o weithgareddau ardderchog. Diolch i'r awdur Mr. Gareth James am ymweld ni i drafod ei nofel, a astudiwyd yn ystod y flwyddyn sef *Dirgelwch Pentre Ifan*, fel rhan o'r diwrnod. Cofiwch gael cip ar ein gwefan *www.penrhyncoch.ceredigion.sch.uk* am fwy o wybodaeth neu dilynwch ni ar drydar @YsgPenrhynCoch







# Ysgol Craig yr Wylfa

**Ymwelydd Enwog**
Daeth ymwelydd enwog i'r Ysgol ym mis Mehefin, sef Matti Hemmings. Bu ar y rhaglen "Blue Peter" yn ddiweddar ac mae yn llyfrau Record y Byd am ei styntiau beicio. Fe wnaeth ddangos ei sgiliau ar y BMX i'r Ysgol gyfan – dyna beth oedd sioe a chyffro! Yna fe wnaeth weithgaredd gyda blynyddoedd 5 a 6, gan iddynt gael cyfle i drial wneud triciau eu hun ar y beiciau. Diolch yn fawr i Sioned Sustrans am drefnu!

**Trip Haf yr Ysgol**
Eleni aeth yr Ysgol gyfan ar eu trip Haf blynyddol i Quackers. Cafodd pawb ddiwrnod i'r brenin!

**Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd**
Ar gyfer y diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd bu plant blwyddyn 3 a 4 yn brysur yn coginio cacennau ar ei gyfer. Trefnwyd gêmau a cwisiau am Gymru gan i'r plant wisgo lan yn y tri lliw hefyd. Diwrnod llawn hwyl a sbri.

**Chwaraeon ar y Traeth**
Cafodd blwyddyn 5 a 6 ddiwrnod llawn gweithgareddau chwaraeon ar y traeth yn y Borth, ymysg ysgolion eraill o gylch Aberystwyth.

**Noson Gymdeithasol yr Haf**
Cynhaliwyd Noson Gymdeithasol yr Haf gan y "PTFA" yn yr wythnos olaf o'r tymor. Trefnodd plant Cyfnod Allweddol 2 stondinau mewn grwpiau. Roedd yna farbeciw o dan ofalaeth y "PTFA" a chastell neidio. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi ac i gymdeithasu – noson hyfryd a llwyddiannus.

**Gwasanaeth Ffarwelio Blwyddyn 6 ac llwyddiannau disgyblion.**
Fel rhan o wasanaeth Ffarwelio â Blwyddyn 6 eleni, bu plant Cyfnod Allweddol 2 yn brysur iawn yn yr wythnosau diwethaf yn creu ffilm i'w dangos yn y gwasanaeth. Yn y ffilm roedd yn dangos y plant a oedd yn gadael eleni yn breuddwydio am beth hoffent fod pan fyddant yn hŷn. Crëwyd gan ddefnyddio'r iMovies a'r sgrîn werdd ac hefyd roedd yn cynnwys negeseuon gan eu ffrindiau atynt. Pob lwc i bob aelod o Flwyddyn 6 sydd yn mynd i fyny i Ben-glais – mi fyddwn yn gweld eich eisiau yn yr Ysgol.
Y dasg ar gyfer Priosect Peter Glover eleni oedd i greu eitem o ddilledyn allan o eitemau a oedd wedi cael eu hailgylchu. Llongyfarchiadau i Dylan a wnaeth ennill gystadleuaeth/ prosect Peter Glover. Da iawn i Charlotte a Maya am ddod yn gydradd ail, ac i Jayden ac Iyla am ddod yn gydradd drydydd.
Hefyd, da iawn i bawb a gafodd eu cyflwyno â thystysgrifau presenoldeb aur, arian ag efydd.







**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
**Shan Jones**
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

# Ysgol Rhydypennau

**Dal lan â'r digwyddiadau**

**Garddwest yr ysgol**

Cynhaliwyd ein Garddwest eleni ar y 29ain o Fehefin. Cafwyd nifer o weithgareddau, amryw o stondinau ac, i agor y noson, adloniant gan blant blwyddyn 6. Diolch o galon i Bwyllgor Cymdeithas Rhieni Athrawon yr ysgol am drefnu'r noson ac i rieni a chyfeillion yr ysgol a fu'n barod iawn i gynnig cymorth hefyd. Diolch i'n prif noddwyr, 'Alexanders'. Diolch hefyd i noddwyr y gwobrau, Clarach Bay Holiday Village, City Plumbing Supplies a 'Cactws' am eu cyfraniadau hael hwy. Mi fydd yr arian a godwyd yn ystod y noson yn gymorth sylweddol i brynu adnoddau a chyfarpar pwysig er mwyn cynnal addysg pob plentyn yn yr ysgol.

**Mabolgampau**

Cynhaliwyd ein mabolgampau eleni ar y 18fed o Fehefin. Y tîm buddugol oedd Eleri; ail oedd Rhedol ac Ystwyth yn drydydd. Llongyfarchiadau i Erin Hesden Kenny (bl 6) am ennill y pwyntiau uchaf yng nghystadleuaeth merched blwyddyn 5 a 6; Gethin Davies (bl 6) am ennill y pwyntiau uchaf yng nghystadleuaeth bechgyn 5 a 6; Katie Whiteway (bl 4) am ennill y pwyntiau uchaf yng nghystadleuaeth merched blwyddyn 3 a 4 a Daniel Jones (bl 4) am ennill y pwyntiau uchaf yng nghystadleuaeth bechgyn blwyddyn 3 a 4.

**Gala Nofio**

Enillwyr Gala Nofio'r ysgol eleni oedd Eleri. Erin Hesden Kenny (bl 6) lwyddodd i ennill y wobr am y nifer fwyaf o bwyntiau yng nghystadleuaeth y merched a Noa Elias (bl 5) enillodd cystadleuaeth prif bwyntiau'r bechgyn.

**Ymweliadau**

Fel rhan o'u thema dosbarth 'O'r Fferm i'r Fforc', aeth plant Blwyddyn 3 a 4 i Fferm Peithyll yng Nghapel Dewi. Cafodd y plant gyfle i ddysgu am Gynnyrch Cymreig, gwelwyd cŵn defaid yn gweithio a chafwyd trip tractor o amgylch y fferm. Diolch i INNOVIS a Dewi'r bugail am ddiwrnod difyr iawn.

**Ffarwelio**

Yn anffodus bu'n rhaid ffarwelio â Miss Betsan Siôn ar ddiwedd tymor yr Haf. Bu Miss Siôn yn gaffaeliad i dîm y Cynorthwywyr Addysgu, yn aelod staff ymroddgar a pharod ei chymwynas bob tro. Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i Miss Siôn am ei gwaith a'i chyfraniad i fywyd yr ysgol gan ddymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol.

Hoffai'r ysgol ddymuno pob hwyl i blant blwyddyn 6 llynedd wrth iddynt drosglwyddo i'w hysgolion uwchradd i gychwyn pennod newydd cyffrous yn eu bywydau.



Ffarwelio â disgyblion blwyddyn 6.



Ymweliad plant blwyddyn 3 a 4.

**Clwb Cant**

Dyma ganlyniad fis Medi:-

1af-£25- Jessica Mai Evans

2il-£15- Karen Hutton

3ydd-£10- Delyth Morgan



Goreuon y Gala-Erin Hesden Kenny (bl 6) a Noa Elias (bl 5).



Capteniaid Eleri, Erin Hesden Kenny a Joel Wakelin yn derbyn tlws buddugol y mabolgampau.

**Tylino Thai Trefechan**

(Thai Massage)

Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster

Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

**James Memorials**

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

## Ysgol Pen-llwyn

**Trip Gelli Gyffwrdd**
Trip Cyfnod Allweddol 2 eleni oedd ymweliad â Gelli Gyffwrdd. Cafwyd llawer o hwyl yn gwneud amryw o weithgareddau anturus yn ystod y dydd yn yr heulwen braf. Diolch Mr Shepherd a Miss Jones!

**Trip 'Quackers'**
Aeth y Cyfnod Sylfaen i gyfeiriad y dwyrain eleni ar gyfer trip diwedd tymor. Roedd tipyn o antur a hwyl i gael ar y llithren serth a'r holl gyfarpar cyffrous. Mwynheuodd pawb y diwrnod ac yn enwedig gyrru'r cyrtiau o gwmpas y llyn ar ddiwrnod braf o haf. Roedd y plant a'r staff wrth eu bodd drwy gydol y dydd.

**Gŵyl chwaraeon 5 a 6**
Bu cyfle arbennig i ddisgyblion bl.5 a 6 i gymryd rhan mewn gŵyl chwaraeon ar draeth y Borth. Cafwyd cyfle i wneud sesiwn rygbi o dan reolaeth staff Undeb Rygbi Cymru, sesiynau hwyl efo swyddogion 5x60 y sir a chyfle i chwarae criced ar y traeth.

**Gwenyn**
I gloi'r dysgu am drychfilod, daeth Helen Ovens i ddysgu'r plant am sut i gadw gwenyn. Roedd y plant wedi paratoi hyd at 5 cwestiwn yr un ac roedd hi wedi llwyddo i ateb pob cwestiwn. Dwi'n siŵr bydd yna sawl disgybl yn cadw gwenyn yn y dyfodol!

**Sioe Capel Bangor**
Trefnodd aelodau'r CRhA stondin llawn crefftau diddorol ac roedd yn braf treulio amser gyda'r Cylch Meithrin. Cafwyd hwyl yng nghystadlaethau y babell hefyd gyda llawer o wobrau i'r disgyblion, rhieni a'r clwb garddio! Mae nifer o syniadau ar gyfer dathlu hanner can mlynedd y sioe flwyddyn nesaf. Diolch i bawb sy'n trefnu ein sioe leol lwyddiannus!

**Adeilad**
Bu llawer o waith yn digwydd i adeilad yr Ysgol dros yr haf. Rydym wedi cael ffenestri a drysau newydd yn ogystal â system gwres newydd. Dwi'n siŵr bydd yr adeilad yn gynnes iawn erbyn y gaeaf!

**Wallich**
Ar ôl cynnal stondin cacennau yn yr Ysgol, aeth Mr Shepherd a dau aelod o'r Cyngor Ysgol i gyflwyno siec am £114 i'r Wallich. Da iawn blant am eich ymdrechion!

**Croeso**
Croeso i Miriam Pritchard, athrawes newydd Dosbarth 2 ac i 7 disgybl newydd i'r dosbarth Derbyn. Gobeithio byddwch yn hapus iawn yn ein plith.











# Tasg y Tincer



Soffia

Gobeithio eich bod i gyd wedi mwynhau eich gwyliau haf. Mae'n siŵr fod sawl un ohonoch chi wedi bod yn ymweld â llefydd diddorol – y Sioe yn Llanelwedd, y rali fawr yng Nghaernarfon, yr Eisteddfod yn Llanrwst, carnifal y Borth ... pob math o lefydd! Diolch i bawb fu'n lliwio llun y dolffin yn rhifyn Mehefin: Jack Herron, Bow Street; Elis Wyn Jenkins, Penrhyn-coch; Maddison, Bow Street; Soffia Elin Chaudhuri. Aber-porth. Gobeithio eich bod i gyd wedi gweld dolffin neu ddau ym Mae Ceredigion yn ystod yr haf. Dy enw di, Soffia, ddaeth o het y *Tincer*. Llongyfarchiadau i ti!

Tybed ydech chi'n gwybod beth sy'n cael ei ddathlu ar 16 Medi? Dyma ddyddiad **Diwrnod Owain Glyndŵr** – dyn pwysig iawn, ac arwr i ni'r Cymry. Ar y dyddiad hwn yn 1400 – dros 600 mlynedd yn ôl – daeth Owain Glyndŵr yn dywysog Cymru. Un o Gorwen, Sir Ddinbych, oedd Owain Glyndŵr ac mae'n werth i chi fynd i Gorwen i weld y cerflun mawr ohono ar sgwâr y dref. Ganrifoedd lawer cyn cael senedd yng Nghaerdydd, roedd gan Glyndŵr senedd ym Machynlleth. Dyn clyfar, mentrus a dewr iawn oedd o. Cofiwch, does neb yn siŵr pryd fuodd Owain Glyndŵr farw, na lle cafodd ei gladdu ... ac mae sôn bod ei ysbryd yn barod i ymladd dros bobl Cymru unwaith yn rhagor! Dwi'n siwr i mi gael cip arno yn y dyrfa fawr yn rali Caernarfon ...

Y mis hwn, beth am liwio llun y tywysog dewr? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Hydref.  Ta ta tan toc, a phob hwyl ar y tymor newydd yn yr ysgol!

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 421 | Medi 2019